gwasanaeth eiriolaeth ieuenctid cenedlaethol | national youth advocacy service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# SAFONAU YMARFER A CHANLLAWIAU ARFERION DA


**Anne Crowley**

**Sharon Lovell**


## Ymwelwyr Annibynnol

# CYDNABYDDIAETHAU

Mae'r safonau ymarfer a'r canllawiau hyn wedi cael eu llunio gan Wasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS Cymru), trwy bartneriaeth â grwp gweithredol o gynrychiolwyr rhanddeiliaid. Mae NYAS Cymru yn un o dri darparwr gwasanaethau sy'n darparu Gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol yng Nghymru. Mae'r gwaith wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ar ran y Grŵp Cynghori Gweinidogion ynghylch Gwella Canlyniadau i Blant.

Hoffem ddiolch i'r holl Gydlwynwyr Gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol, sefydliadau gwirfoddol, awdurdodau lleol, gofalwyr maeth, plant, pobl ifanc, gweithwyr cymdeithasol, Ymwelwyr Annibynnol (YA), Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs), Penaethiaid Gwasanaethau Plant, Timau Gadael Gofal a llawer o unigolion sydd wedi cyfrannau at y prosiect hwn. Diolch yn enwedig i Elly Jones o NYAS Cymru am arwain y gwaith wyneb yn wyneb gyda phlant a phobl ifanc; y Rhwydwaith Maethu am ein cynorthwyo i gysylltu â gofalwyr maeth; Alexander Gordon o'r NIVDP; Tobia Harty, NYAS Cymru, am ei chymorth â'r arolwg ar-lein; Alyson Sefton, NYAS Cymru; Clare Hopkins (CGGA), Katherine Jones a'r staff eraill yn TGP Cymru am ein cynorthwyo ni i gyfweld YA a phobl ifanc; ac aelodau eraill Grŵp Cynghori'r prosiect, gan gynnwys: Megan Davies, Sarah Day, Chris Dunn, Beth Flowers, Bethan James, Debbie Jones, Kathy S'Jacob, Sophie, Emma Sullivan, Rachel Thomas a Keith Towler. Hoffem ddiolch hefyd i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth a'u cymorth.

Cafodd ymgynghoriadau ynghylch y safonau drafft eu cynnal yn 2018 gyda'r canlynol:

- Pobl Ifanc sydd â Phrofiad o Dderbyn Gofal
- Cydlynwyr Gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol
- Ymwelwyr Annibynnol
- Gweithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr
- Swyddogion Adolygu Annibynnol
- Gofalwyr Maeth
- Rheolwyr Comisiynu Awdurdodau Lleol

# CYNNWYS

**Cyflwyniad a chefndir:** Beth yw Ymwelydd Annibynnol? Y fframwaith cyfreithiol. Diben y canllawiau hyn. 1

**Asesiad o ymarfer – canfyddiadau allweddol**: Beth sy'n diwgydd yng Nghymru mewn perthynas ag YA? 5

**Y safonau cenedlaethol a'r canllawiau arferion da** 9

Ar gyfer pob un o'r 14 safon genedlaethol:

- Y Safon
- Gofynion i Awdurdodau Lleol
- Gofynion i Ddarparwyr Gwasanaethau
- Sut i Ddangos Cydymffurfiaeth
- Arferion Da – awgrymiadau.

**Atodiadau:**

A. Codau Ymarfer o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

B. Gwybodaeth ar gyfer Pobl Ifanc

C. Adnodd Asesu

D. Fframwaith Comisiynu

E. Rhagor o Wybodaeth.

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r safonau ymarfer a'r canllawiau ynghylch penodi Ymwelwyr Annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Mae'r safonau a'r canllawiau wedi cael eu datblygu yn dilyn asesiad o ymarfer mewn perthynas ag YA, ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gwaith gyda grŵp ymgynghorol o randdeiliaid a grwpiau o bobl ifanc. Mae'r safonau cenedlaethol yn ychwanegu at y safonau ymarfer a ddatblygwyd gan Brosiect Cenedlaethol Datblygu Ymwelwyr Annibynnol (NIVDP) yn gweithio ledled Cymru a Lloegr. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu NYAS Cymru i gynnal asesiad o ymarfer a datblygu'r safonau ar ran y Grŵp Cynghori Gweinidogion ynghylch Gwella Canlyniadau i Blant.

Mae nifer o eitemau eraill yn ategu'r safonau cenedlaethol a'r canllawiau ymarfer, ac maent wedi'u cynnwys yma fel atodiadau:

- Gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc (wedi'i llunio gan grŵp o bobl ifanc) - gweler Atodiad B.
- Adnodd i gynorthwyo awdurdodau lleol i asesu cymhwystra i benodi YA mwn cymhariaeth â'r meini prawf 'lles pennaf' sydd wedi'u hamlinellu yn y Codau Ymarfer sy'n ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – gweler Atodiad C.
- Fframwaith comisiynu - gweler Atodiad D.
- Rhestr o wefannau ac adnoddau defnyddiol i gael rhagor o wybodaeth – wedi'i chynnwys yn Atodiad E.

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn amlinellu rôl yr YA a'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â phenodi YA ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, a chyngor ynghylch defnyddio'r canllawiau ymarfer. Mae'r rhan nesaf o'r ddogfen yn cyflwyo canfyddiadau allweddol yr asesiad o ymarfer, ac mae'n mapio'r defnydd o YA yng Nghymru ac yn amlygu'r prif themâu ymarfer sy'n deillio o'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid. Mae hefyd yn disgrifio sut mae'r safonau cenedlaethol a'r canllawiau ymarfer wedi cael eu datblygu. Mae'r rhan olaf yn amlinellu'r 14 safon genedlaethol a'r canllawiau ymarfer.

**Beth yw Ymwelydd Annibynnol?**

Cyflwynwyd rôl Ymwelydd Annibynnol am y tro cyntaf yn Neddf Plant 1989. Y cysyniad oedd gallu paru plant sy'n derbyn gofal oedd heb lawer o gysylltiad â'u teuluoedd â gwirfoddolwr - a elwir yn Ymwelydd Annibynnol - a fyddai'n ymweld â hwy yn rheolaidd i ymgyfeillio â hwy, eu cynghori a chynnig ffynhonnell o gymorth annibynnol. Gallai'r Ymwelydd Annibynnol 'gadw cefn' y plentyn, neu fel y dywedodd un person ifanc wrthym ni, bod yn "rhywun o'u plaid", yn sicrhau fod eu hawliau yn cael eu parchu. Yn ddelfrydol, byddai'r berthynas yn wahanol i'r berthynas ag eiriolwr proffesiynol annibynnol, a byddai'n sicrhau fod gan y plentyn gyswllt cadarnhaol a chyson ag oedolyn arwyddocaol dros gyfnod sylweddol, hyd yn oed pe bai ei leoliad neu ei weithiwr cymdeithasol yn newid. Caiff rôl Ymwelydd Annibynnol ei dehongli'n debyg heddiw, ond cafodd y meini prawf cymhwystra eu hehangu yn 2008 i gynnwys unrhyw achos ble bydd hi'n ymddangos y byddai penodi ymwelydd annibynnol er lles pennaf y plentyn.

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol, bydd gan yr awdurdod ddyletswydd i weithredu er lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc. Wrth hybu llesiant, bydd yn rhaid

i'r awdurdod lleol ystyried amrywiaeth o ddarpariaeth, yn cynnwys ble caiff y plentyn ei leoli, cyswllt ag aelodau o'i deulu biolegol, addysg a chynlluniau gofal iechyd. Caiff unrhyw drefniadau o'r fath eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r cynllun gofal sy'n cael ei arolygu gan swyddog adolygu annibynnol (IRO). Yn y cyd-destun hwn, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ystyried penodi YA, yn achos yr holl blant y maent yn gofalu amdanynt, os yw'n ystyried y byddai'r penodiad er lles pennaf y plentyn a bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cydsynio i hynny. Dylai YA fod yn wirfoddolwyr a dylent fod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. Yng Nghymru ar hyn o bryd, caiff gwirfoddolwyr addas eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cynorthwyo gan un o dri sefydliad gwirfoddol, ac yn aml iawn, caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu fel rhan o gytundeb ehangach i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Mae Ymwelydd Annibynnol yn wirfoddolwr sydd ddim yn gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol ac sydd heb unrhyw gysylltiadau ffurfiol â hwy, a'i rôl yw ymweld â phlentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n byw oddi cartref, ac ymgyfeillio â'r plentyn a'i gynghori. Bydd ymwelwyr annibynnol yn ymdrechu i fod a pharhau i fod yn oedolyn cyson ym mywyd y plentyn na fydd yn newid pan fydd lleoliadau neu weithwyr cymdeithasol yn newid a byddant yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn bob amser. Mae rôl ymwelwyr annibynnol yn golygu bod angen iddynt fod yn gyson ac yn ddibynadwy er mwyn i blant allu meithrin perthynas ymddiriedus a chadarnhaol â hwy dros amser. Bydd y plentyn yn cael cyfle i roi cynnig ar weithgareddau newydd, a threulio amser gyda'i ymwelydd annibynnol, oddi wrth ei leoliad.

**Y Fframwaith Cyfreithiol**

Cyflwynwyd rôl Ymwelydd Annibynnol am y tro cyntaf yn Neddf Plant 1989. Y cysyniad oedd gallu paru plant sy'n derbyn gofal oedd heb lawer o gysylltiad â'u teuluoedd â gwirfoddolwr - a elwir yn Ymwelydd Annibynnol - a fyddai'n ymweld â hwy yn rheolaidd i ymgyfeillio â hwy, eu cynghori a darparu ffynhonnell annibynnol o gymorth iddynt. Yn ddelfrydol, byddai'r berthynas yn sicrhau fod gan y plentyn gyswllt cadarnhaol a chyson ag oedolyn arwyddocaol dros gyfnod sylweddol, hyd yn oed wedi unrhyw newidiadau o ran ei leoliad a'i weithiwr cymdeithasol. Gan amlaf, byddai penodi YA yn cael ei ystyried yn rheolaidd yn ystod adolygiadau statudol ynghylch plant sy'n derbyn gofal. Byddai'r penodiad yn cael ei ystyried yng nghyd-destun cynllun gofal cyffredinol plant a byddai'r trefniant yn cael ei adolygu mewn adolygiadau statudol dilynol ynghylch plant sy'n derbyn gofal.

Cafodd y meini prawf ar gyfer penodi Ymwelydd Annibynnol fel y nodir hwy yn Neddf Plant 1989 (Atodlen 2 Paragraff 17) eu hehangu gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Rhan 2 16 (1) b). Fe wnaeth y ddarpariaeth newydd ehangu cymhwystra yn sylweddol, ac roedd yn datgan, yn ogystal ag yn achos plant oedd yn cyfathrebu'n anaml â'u rhiant neu rywun â chyfrifoldeb rhiant, bod yn rhaid i'r awdurdod lleol benodi unigolyn annibynnol i weithredu fel ymwelydd y plentyn, 'mewn unrhyw achos arall ble byddai'n ymddangos iddynt y byddai gwneud hynny er lles y plentyn'.

Cafodd y ddarpariaeth a grybwyllir uchod ei hymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a daeth i rym ym mis Ebrill 2016. Mae adran 98 (1) yn cadarnhau rôl yr YA fel rhywun y mae'n rhaid iddo ymweld â'r plentyn ac ymgyfeillio ag ef a'i gynghori, ac mae'n ailadrodd y meini prawf 'lles pennaf' a gyflwynwyd yn 2008. Pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu ei fod yn briodol penodi YA ar gyfer plentyn, mae'n rhaid iddo esbonio rôl Ymwelydd Annibynnol i'r plentyn

mewn ffordd sy'n briodol i oedran a dealltwriaeth y plentyn. Dylai hefyd ganfod beth yw dymuniadau a theimladau'r plentyn ac ni ddylai fwrw ymlaen heb gydsyniad y plentyn.

Dylid ystyried a oes ar blentyn angen YA fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn, neu pan adolygir achos y plentyn. Mae'r Codau Ymarfer sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyfeirio at y Rheoliadau sy'n pennu nifer o ffactorau, y dylai'r awdurdod eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch penodi YA.

Maent yn cynnwys:

- a fyddai penodi Ymwelydd Annibynnol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant y plentyn;
- os yw'r plentyn wedi'i leoli bellter o'i gartref neu y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, a yw'r lleoliad yn ei gwneud yn anodd cynnal trefniadau cyswllt digonol (er enghraifft, â theulu a ffrindiau);
- a yw'r plentyn yn methu mynd allan yn annibynnol neu a yw'n anodd iddo gyfathrebu neu ddatblygu perthynas gadarnhaol ag eraill;
- a yw'r plentyn yn debygol o ymddwyn mewn ffordd a all roi'r plentyn mewn perygl o ffurfio perthnasoedd anaddas;
- os yw'r plentyn wedi'i leoli mewn cartref plant, a fyddai cyfle i sefydlu perthynas ag ymwelydd annibynnol yn hyrwyddo llesiant y plentyn. [1]

Mae'n dal yn ddyletswydd ar awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn i benodi unigolyn annibynnol i fod yn ymwelydd y plentyn os bydd yn ymddangos iddynt bod gwneud hynny er lles y plentyn - adran 98 (1) o Ddeddf 2014. Mae'r ddyletswydd hon yr un fath yng Nghymru ag i awdurdodau lleol yn Lloegr. I gael rhagor o wybodaeth, mae'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r adrannau perthnasol o'r Codau Ymarfer yn cael eu hailadrodd yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Yn ychwanegol, ceir nifer o fframweithiau cyfreithiol ehangach, sydd, yng Nghymru, yn berthnasol i blentyn neu berson ifanc sy'n cychwyn derbyn gofal. Mae'r fframweithiau hyn yn helpu i sicrhau mai'r plentyn neu'r person ifanc yw'r unigolyn pwysicaf yn y broses.

***Y deilliannau llesiant a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.***

Deilliannau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc:

- Amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Hybu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Hybu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- Cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu berthnasoedd personol arwyddocaol eraill
- Cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- Datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol a chyfranogi yn y gymuned leol
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd (gan gynnwys peidio â byw mewn tlodi)
- Byw mewn llety addas.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) Cod Ymarfer ynghylch plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Paragraff 333

***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)***

Mae CCUHP yn rhan o gyfraith Cymru[2] ac mae erthygl 12 y Confensiwn, sy'n nodi bod gan '...blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, ac i'w barn gael ei hystyried', yn hollbwysig. Cymeradwyir Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc gan Lywodraeth Cymru a chânt eu hadlewyrchu yn y safonau ymarfer hyn ynghylch YA.

**Defnyddio'r canllawiau ymarfer**

Mae'r canllawiau ymarfer hyn wedi'u hysgrifennu ar gyfer pawb sydd â chyfrifoldebau tuag at blant sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Bydd yn fwyaf perthnasol i'r canlynol:

- Gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr
- Rhieni corfforaethol
- Gofalwyr Maeth
- IROs a'u rheolwyr
- Plant a phobl ifanc - mae taflen gwybodaeth i bobl ifanc wedi cael ei datblygu gyda grŵp o blant sydd â phrofiad o dderbyn gofal yng Nghymru a chynhwysir y daflen yn Atodiad B
- Pobl sy'n gwirfoddoli i fod yn YA neu'r sawl sydd â diddordeb mewn gwneud hynny
- Cydlynwyr gwasanaethau YA sy'n recriwtio, hyfforddi a chynorthwyo gwirfoddolwyr a gaiff eu penodi yn YA
- Swyddogion comisiynu awdurdodau lleol.

Mae'r canllawiau yn amlinellu'r canlynol:

1) **Safonau cenedlaethol** a ddefnyddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru i arolygu awdurdod lleol. Bydd arolwg yn ystyried y safonau ac yn penderfynu a yw'r awdurdod lleol yn eu cyflawni. Nid ydynt yn safonau statudol, oherwydd nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf, mewn Rheoliadau na Chod Ymarfer, ond maent yn safonau sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac fe wnânt gynorthwyo awdurdodau lleol ac arolygwyr i gyflawni a chynnal y safonau uchaf un o ran cynorthwyo ein pobl ifanc sy'n derbyn gofal;

2) **Canllawiau arferion da**, sydd heb unrhyw awdurdod statudol, ond sy'n amlinellu, ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc, sut i sicrhau a chynnal y safonau uchel hyn.

[2] Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau penodedig o dan CCUHP a'i brotocolau dewisol

# Canfyddiadau allweddol yr asesiad o ymarfer

Mae datblygiad y safonau a'r canllawiau ymarfer wedi cael ei lywio gan asesiad o arferion yng Nghymru (a gynhaliwyd yn 2018) a'r gwaith a wnaed eisoes gan rwydwaith o gydlynwyr gwasanaethau YA (NIVDP) ynghylch safonau ansawdd ymarfer sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Cafodd y safonau eu drafftio gan grŵp o randdeiliaid yn gweithio gyda NYAS Cymru ac ymgynghorydd, ac yna cynhaliwyd rhagor o ymgynghori yn eu cylch. Fe wnaeth NYAS Cymru anfon y safonau drafft ac arolwg at amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn cynnwys rhai a oedd eisoes yn cyfranogi yn yr asesiad o ymarfer); daeth â grŵp o bobl ifanc oedd â phrofiad o dderbyn gofal ynghyd i gyfranogi mewn gweithdy i ystyried y safonau drafft, a chafodd adborth gan ofalwyr maeth yn ystod cyfarfod a drefnwyd gan y Rhwydwaith Maethu. Fe wnaeth y rhaglen ymgynghori ddarparu adborth defnyddiol a pherthnasol iawn gan bron iawn 50 o bobl, yn cynnwys pobl ifanc (16), gofalwyr maeth (12) a rhanddeiliaid eraill (19).

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol o'r asesiad o ymarfer. Mapiwyd darpariaeth bresennol gwasanaethau YA â chymorth y tri darparwr gwasanaethau presennol: TGP Cymru, NYAS Cymru a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA). Darparodd Cydlynwyr y gwasanaethau YA ledled Cymru wybodaeth am nifer y plant a phobl ifanc oedd wedi'u paru ag YA ar 31 Mawrth 2018 ym mhob awdurdod lleol a'r niferoedd a oedd yn disgwyl i gael eu paru ar y dyddiad 'ciplun' hwn.

Cafodd yr asesiad manylach o ymarfer ei lywio gan sylwadau grŵp eang o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol (IROs, rheolwyr gwasanaethau, gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr comisiynu), cydlynwyr gwasanaethau YA, YA, pobl ifanc, gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth. Gwahoddwyd dros 50 o atebwyr (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb).

**Canfyddiadau Allweddol**

***Defnydd o Ymwelwyr Annibynnol***

❖ Mae nifer y plant a'r bobl ifanc oedd wedi'u paru ag YA ar ddyddiad y 'ciplun' yn isel ac mae'n cynrychioli llai nag 1% o'r cyfanswm o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru[3]. Roedd cyfanswm o 47 o blant wedi'u paru ag YA ar 31 Mawrth 2018, ac roedd un rhan o dair o'r perthnasoedd hyn mewn un ardal awdurdod lleol. Nid oedd gan un ar ddeg o awdurdodau lleol unrhyw bobl ifanc wedi'u paru ag YA, ac roedd tri awdurdod lleol yn cyfrif am 70% o'r holl berthnasoedd. Roedd 37 o blant eraill yn disgwyl cael eu paru. Mewn cymhariaeth, fe wnaeth ymarfer mapio a wnaed gan NIVDP yn Lloegr yn 2015 nodi 2,200 o blant oedd wedi'u paru ag YA - 3.2% o gyfanswm y boblogaeth o blant yn derbyn gofal[4].

❖ Roedd y bobl ifanc oedd wedi'u paru ag YA ar ddyddiad y ciplun rhwng 10 ac 19 mlwydd oed; roedd y mwyafrif (70%) yn 13 ac 17 mlwydd oed. Roedd un rhan o dair (36%) o'r bobl ifanc wedi'u lleoli y tu allan i'w sir. O blith y 37 o blant a phobl ifanc oedd yn disgwyl am YA i gael ei benodi

---

[3] Roedd 5954 o blant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2017. Ystadegau Cymru (Rhagfyr 2017) [Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, 2016-17]

[4] Gordona, A. a Graham, K. (2016) [The National Independent Visitor Data Report] Barnardo's ac Ymddiriedolaeth Tudor.

iddynt ar ddyddiad y ciplun, roedd 44% yn byw mewn lleoliadau y tu allan i'w sir. Roedd bron iawn un rhan o dair o'r sawl oedd ar y rhestr aros yn disgwyl i gael eu paru ers dros 12 mis.

***Trefniadau comisiynu***

- Mae tri sefydliad o'r trydydd sector yn darparu Gwasanaethau YA yng Nghymru. Caiff NYAS Cymru a TGP Cymru eu comisiynu i ddarparu YA mewn 16 o awdurdodau lleol trwy gyfrwng pum cytundeb rhanbarthol. Mae'r rhan fwyaf o'r comisiynau hyn (ond nid pob un) wedi'u cynnwys yn y cytundebau i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol broffesiynol. Mae gan bedwar awdurdod lleol arall drefniant ag un o'r darparwyr hyn i brynu gwasanaethau pan fo'r angen yn codi. Mae un awdurdod lleol yn comisiynu ei wasanaeth YA gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol. Mae'r ail o'r trefniadau hyn yn ei le ers bron iawn 20 mlynedd, a dyma'r trefniant mwyaf llwyddiannus o bell ffordd o ran paru plant a phobl ifanc ag YA.

- Roedd cytundebau yn amrywio'n sylweddol iawn o ran eu maint. Mae gan ddau awdurdod lleol, sef Abertawe a Chaerdydd, drefniant comisiynu gweddol hael ac maent yn ariannu Cydlynydd YA, ac yn sgil hynny, yr awdurdodau hyn sydd â'r nifer fwyaf o blant a phobl ifanc sydd wedi'u paru ag YA. Ond caiff y rhan fwyaf o wasanaethau YA eu comisiynu ar lefel ranbarthol, a darperir cyfanswm cyfyngedig iawn o gyllid i recriwtio, hyfforddi a chynorthwyo YA ochr yn ochr â darpariaeth eiriolaeth annibynnol proffesiynol llawer iawn mwy. Nid yw'r model comisiynu mwyaf cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio yn darparu gwasanaeth digonol o ran nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi'u paru. Yn ychwanegol, mae rhai rheolwyr comisiynu a darparwyr gwasanaeth yn pryderu nad yw'r trefniadau presennol i fonitro a gwerthuso perfformiad, ansawdd gwasanaethau, ac yn y pen draw, deilliannau i blant a phobl ifanc, yn addas i'w diben.

***Meini prawf cymhwystra, gweithdrefnau i benodi YA a lefelau o ymwybyddiaeth***

- Roedd nifer o'r awdurdodau lleol a gyfrannodd at yr adolygiad a'r asesiad o ymarfer yn ansicr ynghylch y meini prawf a ddefnyddir ar hyn o bryd i benodi YA neu nid oeddent yn ymwybodol ohonynt. Fe wnaeth rhai awdurdodau lleol gydnabod y meini prawf a sefydlwyd yn ddiweddar sy'n nodi y dylid penodi YA os ystyrir bod hynny er lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc. Fel rhan o'r prosiect datblygu hwn, mae adnodd asesu wedi cael ei ddatblygu (gweler Atodiad C) i gynorthwyo awdurdodau lleol i bennu cymhwystra yn unol â'r meini prawf 'lles pennaf'.

- Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, roedd prinder gwybodaeth am eu gweithdrefnau i benodi ymwelydd a phrinder dealltwriaeth o hynny. Dywedodd rhai gofalwyr maeth eu bod yn ansicr ynghylch rôl YA a rôl eiriolwr proffesiynol annibynnol. Yn gyffredinol, nid yw'n ymddangos y gwelir gwerth yn y ddarpariaeth ac ni chaiff ei ystyried yn rhagweithiol fel dewis ychwaith. Ceir eithriadau yn achos y cytundebau hynny sy'n darparu ar gyfer cydlynydd penodol wedi'i leoli'n lleol ar gyfer gwasanaethau YA. Bydd y cydlynydd yn cysylltu'n rheolaidd â'r tîm plant sy'n derbyn gofal a bydd y berthynas ymddiriedus yn sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o beth gall y gwasanaeth YA ei ddarparu a sut gall YA wella deiliannau.

***Darpariaeth***

- Penodir YA i ymweld â'r plentyn a ymgyfeillio ag ef a'i gynghori. Cânt eu hyfforddi a'u cynorthwyo gan ddarparwr y gwasanaeth a'u paru mor agos ag y bo modd â delfryd y plentyn neu'r person ifanc. Mae gan bob un o'r tri darparwr broses ymgeisio drylwyr sy'n cynnwys cyfweliadau, cais am eirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)[5]. Ar ôl cael eu cymeradwyo, bydd yr YA yn cael eu hyfforddi ynghylch amrywiaeth o bynciau yn cynnwys diogelu, gosod terfynau, cychwyn a gorffen, amrywiaeth a sensitifrwydd diwylliannol.

- Ym mhob un o'r gwasanaethau yng Nghymru, bydd YA yn ymweld yn rheolaidd â'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi'i baru â hwy. Mae'r amlder yn amrywio o unwaith yr wythnos i unwaith bob chwe wythnos. Bydd yr YA yn mynd â'r plentyn neu'r person ifanc i wneud gweithgaredd. Gallai hynny gynnwys chwaraeon neu ymweld ag amgueddfa, ond gallai hefyd olygu mynd am baned o goffi a/neu gerdded ar y traeth. Yn bwysig iawn, y plentyn neu'r person ifanc sy'n dewis y gweithgareddau o fewn cyfyngiadau'r cyllid sydd ar gael. Nod darparu YA yw galluogi'r plentyn i ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol, sefydlog a thymor hir ag oedolyn, ac fe wnaeth yr asesiad o ymarfer nodi sawl enghraifft o achosion ble'r oedd YA wedi cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd â phrofiad o dderbyn gofal (gweler isod).

***Heriau***

- Yr her fwyaf a nodwyd o ran darparu gwasanaethau YA yw'r diffyg adnoddau a'r anawsterau yn ymwneud â recriwtio gwirfoddolwyr sy'n deillio o hynny. Ag adnoddau digonol, mae'n ymddangos mai'r model mwyaf llwyddiannus ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr addas yw'r rhai sydd â Chydlynydd gwirfoddolwyr penodedig, sy'n gweithio yn yr ardal leol. Nid yw'r model comisynu sy'n cael ei ddefnyddio gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol – ble caiff gwasanaethau YA eu hychwanegu at wasanaethau eiriolaeth annibynnol, â rhai aelodau o staff yn gweithio fel rhan o'r ddau gytundeb – yn llwyddo. Un thema gyffredin yn y sylwadau gan ddarparwyr a chomisiynwyr yw uchafiaeth gwasanaethau eiriolaeth dros wasanethau YA. O blith yr 17 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n comisiynu gwasanaethau YA gweithredol, mae llawer yn talu am yr hyn sy'n cyfateb i lai na dwy awr o amser staff bob wythnos. Mae'n ymddangos na all y cyfanswm hwn o adnoddau gynnal gwasanaeth YA dichonol.

- Mae recriwtio gwirfoddolwyr gwrywaidd yn anodd heriol i bob darparwr gwasanaeth. Dywed gwasanaethau sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol eang ei bod hi'n anodd iddynt recriwtio gwirfoddolwyr yn yr union fannau hynny ble mae eu hangen hwy. Dywed pob darparwr y ceir heriau yn gysylltiedig â pharu YA â phlentyn neu berson ifanc sydd wedi'i leoli oddi allan i'r sir. Fodd bynnag, cawsom ein hysbysu am lawer o enghreifftiau o wirfoddolwyr yn dilyn pobl ifanc ledled y DU.

***Cyfraniadau at ddeilliannau cadarnhaol***

- Fe wnaeth yr asesiad o ymarfer gasglu nifer fawr o astudiaethau achos ble'r oedd YA wedi cyfrannu'n gadarnhaol ac yn arwyddocaol at wella llesiant plentyn neu berson ifanc. Maent yn

[5] hiips://www.gov.uk/government/org anisations/disclosure-and-barring-service

dangos sut y gall datblygu perthnasoedd ag YA dros y tymor hir, ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, ddarparu rhywfaint o sefydlogrwydd yn eu bywyd, a pherthynas barhaus a chyson â rhywun sydd ar gael iddynt tra byddant yn derbyn gofal ac wrth iddynt ddod yn oedolion. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys sefyllfaoedd ble'r oedd pobl ifanc wedi cael eu cynorthwyo dros flynyddoedd lawer ar adegau newid lleoliad, trwy gydol cyfnod gadael gofal, ar adeg newid ysgol ac ar adegau pan ddigwyddodd mathau eraill o bontio. Gall rheoli newid fod yn gyfnod neilltuol o anodd i berson ifanc ac roedd pobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol yn ystyried fod cael cymorth gan oedolyn arwyddocaol a dibynadwy pan fydd hi'n ymddangos fod popeth arall yn newid yn rhywbeth neilltuol o werthfawr. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys sefyllfaoedd ble'r oedd YA yn helpu i gynnal lleoliad ar adeg anodd; ac yn helpu i gynorthwyo pobl ifanc â'u dewisiadau gyrfa ac addysg, eu hobïau a'u dewisiadau bywyd. Rydym ni wedi clywed hefyd sut mae YA wedi gallu darparu cymorth i bobl ifanc sydd newydd gyrraedd y wlad hon ac sydd ar eu pen eu hunain heb unrhyw warcheidwaid swyddogol i ofalu amdanynt na'u helpu i ymaddasu i'w sefyllfa newydd. Mae'r dystiolaeth hon o'r buddion a ddarperir gan YA yn cynnig sail resymegol rymus dros werth gwasanaethau YA.

- Roedd yr adborth gan y bobl ifanc a'r sawl sy'n gweithio gyda hwy ac yn gofalu amdanynt, a gyfrannodd at yr asesiad o ymarfer hwn, yn gadarnhaol iawn. Fe wnaeth ymatebwyr bwysleisio'r buddion canlynol y gall plentyn neu berson ifanc eu cael trwy gyfrwng eu perthynas ag YA:

    - **Roedd pobl ifanc a gofalwyr maeth yn ystyried fod cyfeillgarwch, â dewis a'r gallu i'w reoli,** yn fudd pwysig. Roedd cael cyfeillgarwch yr oedd ganddynt rywfaint o ddewis yn ei gylch a rhywfaint o allu i'w reoli yn neilltuol o bwysig i bobl ifanc oedd yn wynebu newidiadau, e.e. newid gweithiwr cymdeithasol, newidiadau yn yr ysgol, profedigaethau a symud i leoliad arall.

    - Roedd **rhywun i gadw fy nghefn i a fy annog i fynegi fy marn fy hun** yn fudd pwysig arall a nodwyd gan y bobl ifanc. Fe wnaeth YA a gweithwyr cymdeithasol gyfeirio hefyd at y twf mewn hyder a hunan-barch yr oeddent wedi'i dystio wrth i berthynas y person ifanc â'r YA ddatblygu.

    - Cyfeiriodd pobl ifanc at yr **anogaeth a'r gefnogaeth** y bydd YA yn eu cynnig iddynt. Ar gyfer gweithgareddau neu ddiddordebau penodol, neu i roi cynnig ar rywbeth newydd. Roedd ymdeimlad cyffredinol hefyd fod yr YA yn darparu anogaeth a chymorth yn ystod adegau anodd, a chroesawid hynny.

    - Mae'r **cysondeb a'r parhad** a gynigir gan y berthynas ag YA yn un o fuddion gwirioneddol y berthynas ag YA, ac mae pobl ifanc yn gweld gwerth sylweddol yn hynny. Yn achos plant sydd â phrofiad o dderbyn gofal, mae cael oedolyn cyson ac arwyddocaol o'ch plaid chi - rhywun y gallwch chi ddibynnu arno ac ymddiried ynddo, i fod ar gael i chi - yn hollbwysig.

    - Roedd **paratoi at annibyniaeth** yn fudd y cyfeiriodd rhai pobl ifanc ac ymarferwyr ato. Mae rhwydweithiau cymorth yn allweddol ar yr adeg hon, fel y dywedodd pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal wrthym ni dro ar ôl tro, felly dan amgylchiadau ble gall cymorth gan YA barhau trwy gydol y cyfnod gadael gofal, gall hynny sicrhau buddion go iawn.

Mae canfyddiadau allweddol yr asesiad o ymarfer yn dangos sut mae perthnasoedd ag YA yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal. Ni ellir tanbrisio gwerth perthynas gyson ag un oedolyn ac mae'n amlwg bod gwasanaethau YA yn cynnig cyfle pwysig arall i sefydlu perthynas o'r fath a gwella deilliannau llesiant plant sy'n derbyn gofal. Mae ymchwil yn ein hatgoffa ni’n gyson am natur warcheidiol perthnasoedd o’r fath.

Mae’r asesiad hefyd wedi dangos bod y defnydd o YA yng Nghymru wedi parhau i ostwng. Mae’n siomedig nodi mai dim ond 0.4% o blant oedd yn derbyn gofal oedd wedi’u paru ag YA ym Mawrth 2018; bod rhestrau aros hirbarhaol yn bodoli mewn ardaloedd ble ceir adnoddau annigonol ar gyfer gwasanaethau YA, ac ar waethaf y potensial enfawr a amlygwyd gan dystiolaeth yn yr asesiad o ymarfer, mae plant a phobl ifanc yn colli cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd cyson a dibynadwy ag oedolyn. Ar nodyn mwy cadarnhaol, fe wnaeth yr asesiad o ymarfer lwyddo i nodi pocedi o arferion da; mae tri o’r awdurdodau lleol mwy yng Nghymru yn dal i fuddsoddi mewn gwasanaethau YA ac mae’n ymddangos eu bod yn gwerthfawrogi’r cyfraniadau a wneir gan YA at ddeilliannau cadarnhaol i blant sy’n derbyn gofal.

Nod y safonau cenedlaethol ar gyfer YA yng Nghymru yw gwella ansawdd yr ymarfer, sefydlu dull cyson a seiliedig ar hawliau sy’n caniatáu i bob plentyn a pherson ifanc cymwys gael cynnig y posibilrwydd o gael ymweliadau gan wirfoddolwr annibynnol addas a datblygu perthynas tymor hir ag ef neu hi. Mae’r Adnodd Asesu a’r Fframwaith Comisiynu sy’n gysylltiedig â’r canllawiau hyn wedi’u llunio i ddarparu cymorth ac arweiniad y mae galw mawr amdanynt i reolwyr gwasanaethau awdurdodau lleol, comisiynwyr gwasanaethau, a darparwyr gwasanaethau YA. Yn ychwanegol, gall *Arolygiaeth Gofal Cymru* fonitro cynnydd o ran gwella ymarfer mewn cymhariaeth â’r safonau cenedlaethol a gall y Grŵp Cynghori Gweinidogion werthuso effeithiolrwydd y prosiect.

# Safonau Cenedlaethol a Chanllawiau Arferion Da

Mae'r adran hon yn amlinellu pob un o'r 14 safon genedlaethol ac mae'n disgrifio sut gall yr awdurdod lleol (gweithwyr cymdeithasol, eu rheolwyr, IROs, swyddogion comisiynu) a darparwyr gwasanaethau YA ddangos eu bod yn cydymffurfio. Mae dyfyniad gan berson ifanc sy'n ymwneud â'r prosiect yn dangos pam mae'n credu bod y safon yn bwysig. Yn olaf, cynhwysir awgrymiadau ynghylch arferion da. Dylid darllen y safonau ar y cyd â'r Codau Ymarfer perthnasol sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A). Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Cod Ymarfer; nid yw yn ei ddisodli. Mae'r safonau ymarfer wedi'u grwpio fel a ganlyn:

| |
|---|
| **PLANT A PHOBL IFANC** |
| 1. Chi piau'r hawl a chi piau'r dewis.<br><br>2. Wedi'i arwain gan farn a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc.<br><br>3. Cyfrinachedd.<br><br>4. Gwrando ar farn a syniadau plant a phobl ifanc er mwyn gwella'r gwasanaeth.<br>5. |
| **GWIRFODDOLWYR** |
| 6. Recriwtio a dewis<br><br>7. Hyfforddiant a chefnogaeth<br>8. |
| **PERTHNASOEDD** |
| 9. Cychwyn a gorffen<br><br>10. Cyfeillgar ac ymddiriedus<br><br>11. Adborth rheolaidd<br><br>12. |
| |
| 13. Annibynnol<br><br>14. Cadw'n ddiogel<br><br>15. Adnoddau priodol<br><br>16. Cydraddoldeb ac amrywiaeth<br><br>17. Gwneud cwyn<br>18. |

# PLANT A PHOBL IFANC

<table>
<tr><td colspan="2">

**Safon 1: Chi piau'r hawl a chi piau'r dewis**

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn deall eu hawl i gael Ymwelydd Annibynnol i ymweld â hwy ac ymgyfeillio â hwy - os ydynt yn dymuno cael un .

Mae plant a phobl ifanc yn deall sut i ofyn am wasanaeth YA ac yn gwybod pwy ddylent ei holi.

</td></tr>
<tr><td colspan="2">

**Beth mae hyn yn ei olygu i bobl ifanc:**

*"Mae'n rhaid hysbysu bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru am ymweliadau Annibynnol a dylent allu cael ymwelydd pe bai angen hynny arnynt neu pe byddent yn dymuno hynny. Dylai hynny gynnwys plant a phobl ifanc sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir. Dylid darparu gwybodaeth trwy amrywiaeth o ddulliau megis taflenni, fideos, ac ar wefannau."*

</td></tr>
<tr><td>

**Bydd yr awdurdod lleol yn:**

✓ Hysbysebu a hyrwyddo gwasanaethau ymwelwyr annibynnol yn unol â'n dyletswyddau fel rhieni corfforaethol.

✓ Ystyried penodi Ymwelydd Annibynnol ar gyfer pob plentyn dros 7 oed yn unol â'r meini prawf 'lles pennaf'.

✓ Dylai gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth ac IROs roi rhagor o ystyriaeth i benodi ymwelydd annibynnol bob tro y gellir gwneud hynny, ac ym mhob Adolygiad Statudol o leiaf.

</td><td>

**Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:**

✓ Cynhyrchu ystod addas o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd mewn amrywiaeth o fformatau a'u hanfon at weithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, darparwyr gofal preswyl a phobl berthnasol eraill.

✓ Darparu hyfforddiant a gwybodaeth i weithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, gweithwyr preswyl ac IROs .

</td></tr>
</table>

**Arferion da**

- Mae’n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried penodi YA ar gyfer unrhyw blentyn y maent yn gofalu amdano, os byddai hynny er lles pennaf y plentyn. Dylai meini prawf cymhwystra gael eu datgan mewn ffordd sy'n cydymffurfio â chyfrifoldebau cyfreithiol - gan gynnwys gwneud hynny yn deg ac yn gyfartal (trowch at Atodiad C i weld adnodd asesu defnyddiol).

- Sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio clir a llwybrau ar gyfer cael mynediad at wasanaeth YA, yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu, a thrwy hynny, caniatáu i bobl ifanc gyfeirio eu hunain.

- Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau YA gan gynnwys cynnwys gwybodaeth ar wefannau’r awdurdod lleol a darparwr y gwasanaeth a darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal.

- Gwella ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc am eu hawl i gael cynnig YA. Roedd syniadau a gynigiwyd gan randdeiliaid yn cynnwys: bod yr awdurdod lleol yn cynnig YA i bob plentyn neu berson ifanc dros 7 oed pan fyddant yn dechrau derbyn gofal ac yn gwneud hynny (o leiaf) wedyn ym mhob Adolygiad ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal (gellid 'optio allan' o’r cynnig gweithredol hwn – os na chaiff y meini prawf lles pennaf eu bodloni). Nid yw llawer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ledled Cymru yn gwybod am YA - pwy ydynt a beth yw eu rôl.

- Cynnwys nodyn i atgoffa IROs y dylent ystyried a yw plentyn yn gymwys i gael YA yn ystod pob Adolygiad Statudol. Dylai unrhyw benderfyniad i beidio cynnig YA gael ei adolygu’n rheolaidd er mwyn sicrhau y bydd y cyfle'n cael ei ystyried eto os bydd amgylchiadau'r plentyn yn newid.

- Yn ychwanegol, dylai gofalwyr maeth, gweithwyr preswyl, gweithwyr cymdeithasol, eiriolwyr a gweithwyr cyfranogi oll ystyried cyfleoedd i hysbysu plant ynghylch beth yw YA a sut allent fynd ati i gael gwasanaeth YA. Un enghraifft o hyrwyddo yw cynnwys gwybodaeth am YA wrth hyfforddi gofalwyr maeth.

- Ystyried beth yw’r ffordd orau o reoli atgyfeiriadau a dderbynnir ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir neu'r sawl sydd ag anghenion ychwanegol/anghenion cynnal ymddygiad. Er enghraifft, gallai gwasanaethau gydweithio mewn rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i gynorthwyo i sicrhau fod plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir yn cael eu paru. Dylai awdurdodau lleol sy’n lleoli ac yn derbyn plant a phobl ifanc gydweithio i ddeall beth yw’r ffordd orau o ddarparu YA pan fydd angen gwneud hynny.

- Dylai awdurdodau lleol fynd ati i ystyried (fel rhan o Gynllun Llwybr Gofal y person ifanc) parhau i sicrhau fod pobl ifanc yn cael eu paru ag ymwelwyr annibynnol wrth iddynt adael gofal os bydd hynny yn parhau i fod er eu lles pennaf. Yn unol â *When I’m Ready,* bydd yn arfer da hefyd i ystyried atgyfeiriadau newydd i baru pobl ifanc ag YA, yn achos pobl ifanc hyd at 25 oed sydd â phrofiad o dderbyn gofal.

**Safon 2: Wedi'i arwain gan farn a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc**

Mae darpariaeth gwasanaeth ymwelwyr annibynnol yn cael ei harwain gan farn a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc .

Gall plant a phobl ifanc ddewis a ydynt am gael Ymwelydd Annibynnol a phenderfynu ar bethau i'w gwneud gyda'i gilydd .

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Rydym ni'n dymuno cyfranogi'n llawn yn y gwaith o ddewis ein YA ac rydym ni'n dymuno cael dewis pan fydd hynny'n bosibl. Rydym ni'n dymuno cael ein hysbysu'n rheolaidd am y broses o baru gan ein gwasanaeth YA a'n gweithiwr cymdeithasol. Rydym ni'n dymuno i'n YA wrando arnom ni a'n cynnwys wrth benderfynu'r math o weithgareddau y byddwn yn eu gwneud gyda'n gilydd yn ystod ymweliadau."*

| **Bydd yr awdurdod lleol yn:** | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:** |
|---|---|
| ✓ Gwrando ar y plentyn neu'r person ifanc a pharchu ei farn a'i ddymuniadau ynglŷn â'r trefniant yr hoffai ei gael. | ✓ Gwrando ar y plentyn neu'r person ifanc a pharchu ei safbwyntiau a'i ddymuniadau gan gynnwys barn a dymuniadau ynghylch y math o Ymwelydd Annibynnol yr hoffai ei gael, ei ddiddordebau a'i bersonoliaeth; a sut yr hoffai gael gael ei gyflwyno. |

**Arferion da**

- Dylid hysbysu plant a phobl ifanc ac ymgynghori â hwy yn ystod pob cam o'r broses recriwtio a pharu, a dylai eu hanghenion a'u safbwyntiau gael eu nodi'n glir. Bydd gan weithwyr cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau YA gyfrifoldebau yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, ar ôl atgyfeirio, bydd y gwasanaeth YA yn cwrdd â'r plentyn neu'r person ifanc i'w hysbysu am y gwasanaeth, ac yn creu proffil o'r person ifanc er mwyn llywio'r broses o baru. Ymgynghorir â'r plentyn a rhoddir gwybodaeth iddo am ddarpar YA. Bydd y plentyn yn gallu dewis YA pan fydd hynny'n bosibl.

- Dylai darparwyr gwasanaethau YA hysbysu plant a phobl ifanc yn rheolaidd am y broses o recriwtio a'r paru, gan gynnwys eu hysbysu am unrhyw oedi wrth drefnu hynny. Dylid eu diweddaru'n rheolaidd, naill ai trwy gyfrwng llythyr, neu ddiweddaddariadau uniongyrchol gan rywun y maent yn ymddiried ynddo.

- Dylid holi bod amser beth yw dymuniadau a theimladau pobl ifanc ynghylch y gweithgareddau y byddant yn dymuno'u gwneud gyda'r YA. Dylai'r YA weithio gyda'r plentyn a'r person ifanc i wneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael.

**Safon 3: Cyfrinachedd**

Gall plant a phobl ifanc fod yn hyderus na wnaiff darparwr y gwasanaeth YA ddweud wrth neb am y pethau y byddant yn eu dweud wrthynt oni bai y bydd hynny er mwyn eu cadw hwy neu rywun arall yn ddiogel .

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Mae'n bwysig ein bod yn gallu ymddiried yn ein YA a siarad ag ef neu hi yn breifat am bethau heb i hyn gael ei rannu ag eraill heb ein caniatâd, oni bai y byddai hyn yn golygu ein bod ni neu rywun arall mewn perygl o gael niwed. Dylai'r gwasanaeth YA esbonio cyfrinachedd i ni mewn ffordd yr ydym yn ei deall."*

| **Bydd yr awdurdod lleol yn:** | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:** |
|---|---|
| ✓ Sicrhau bod cydymffurfiaeth â pholisi cyfrinachedd wedi'i gynnwys ym manyleb y gwasanaeth. | ✓ Sicrhau bod plant, pobl ifanc a gwirfoddolwyr yn deall polisïau'r gwasanaeth ar barchu cyfrinachedd, ar gadw cofnodion a diogelu, gan gynnwys yr amgylchiadau hynny pan na fydd angen rhannu gwybodaeth. |

**Arferion da**

- Dylai darparwyr gwasanaethau YA esbonio eu polisi cyfrinachedd i'r plentyn neu'r person ifanc gan gynnwys sut y caiff ei wybodaeth ei storio, a sut gall gael mynediad at y wybodaeth honno.

- Dylai gweithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio plentyn neu berson ifanc at wasanaethau YA gytuno â'r plentyn neu'r person ifanc ynghylch pa wybodaeth yn union sy'n cael ei rhannu amdano â'r gwasanaeth YA.

- Dylai darparwyr gwasanaethau YA egluro eu polisi cyfrinachedd wrth y plentyn neu'r person ifanc, a dylai hynny gynnwys cyfeirio at y ffaith na chaiff gwybodaeth ei rhannu fel mater o drefn â gwasanaethau cymdeithasol heb eu cydsyniad ymlaen llaw, oni bydd angen gwybodaeth o'r fath i ddiogelu'r person ifanc neu rywun arall.

- Dan yr amgylchiadau hynny pan fydd angen datgelu gwybodaeth i wasanaethau cymdeithasol, bydd yn rhaid i'r YA atgoffa'r person ifanc beth yw polisi cyfrinachedd a diogelu ei sefydliad a sicrhau bod y plentyn yn cael ei hysbysu'n rheolaidd ac yn cyfranogi'n llawn yn y broses.

- Dylai gweithwyr cymdeithasol sy'n atgyfeirio plentyn neu berson ifanc at wasanaethau YA gytuno â'r plentyn neu'r person ifanc pa wybodaeth yn union sy'n cael ei rhannu amdanot â'r gwasanaeth YA er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn y plentyn/person ifanc yn y broses o wneud atgyfeiriad.

- Dylai darparwyr gwasanaethau YA ddarparu hyfforddiant i wirfoddolwyr ynghylch cyfrinachedd a chadw cofnodion, er mwyn sicrhau eu bod yn deall pa wybodaeth y gall YA ei rhannu a sut dylid gwneud hynny.

**Safon 4: Gwrando ar farn a syniadau plant a phobl ifanc er mwyn gwella'r gwasanaeth**

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Rydym yn dymuno i wasanaethau ymwelwyr annibynnol wrando ar ein profiadau, ein syniadau a'n hawgrymiadau ynghylch y ffordd orau o redeg y gwasanaethau hyn. Dylem ni gael y cyfle i gyfranogi mewn grwpiau ffocws, digwyddiadau, a grwpiau/paneli ymgynghori ar gyfer pobl ifanc. Dylai'r rhain ddigwydd ar adegau pan fyddwn ni'n gallu eu mynychu a dylent fod yn ddifyr ac yn ddiddorol. Dylai ein mewnbwn gael ei gydnabod a'i wobrwyo gan y gwasanaeth ymweliadau annibynnol."*

| Bydd yr awdurdod lleol yn: | Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn: |
|---|---|
| ✓ Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gynnig adborth ynghylch eu barn a'u syniadau ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio . | ✓ Sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys ym manyleb y gwasanaeth a gofyn am dystiolaeth o'r arfer hwn yn y cais ac yn y broses o lunio adroddiadau. |

**Arferion da**

- Dylid rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddwyr gwasanaeth gyfranogi yn y gwaith o gynllunio, monitro ac adolygu'r gwasanaeth. Yn ogystal â'r syniadau a gynigwyd gan y bobl ifanc yn y dyfyniad uchod, gall plant a phobl ifanc gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth trwy ymateb i arolwg, trefnu diwrnod gweithgareddau, hyfforddi a chyfweld gwirfoddolwyr, a gweithio i gyflawni prosiectau penodol megis llunio taflen newydd neu fideo byr.

## GWIRFODDOLWYR

**Safon 5: Recriwtio a dewis**

Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu paru â gwirfoddolwr sydd wedi'i ddewis fel rhywun sy'n addas i dreulio amser gyda hwy ac sy'n deall pwysigrwydd cynnal perthynas yn y tymor hir a darparu sefydlogrwydd a chysondeb dros amser.

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Rydym ni'n dymuno i'r gwasanaethau ymweliadau annibynnol recriwtio ymwelwyr annibynnol o bob cefndir a dylent fod yn bobl â phrofiadau, diddordebau a sgiliau gwahanol. Rydym yn dymuno i wasanaethau wneud ymdrech arbennig i recriwtio gwirfoddolwyr sydd â phrofiad o dderbyn gofal eu hunain."*

*"Dylem fod yn rhan o'r gwaith o recriwtio Ymwelwyr Annibynnol ar gyfer y gwasanaeth trwy weithgareddau fel llunio manylebau gwirfoddolwyr, cyfweld gwirfoddolwyr a dweud ein dweud ynghylch pwy sy'n cael eu dewis. Dylai ein cyfraniad gael ei gydnabod a'i wobrwyo gan y gwasanaeth ymweliadau annibynol.".*

| **Bydd yr awdurdod lleol yn:** | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:** |
|---|---|
| ✓ Ceisio tystiolaeth o bolisi recriwtio, dethol a pharu darparwr cyn dyfarnu cytundeb. | ✓ Gweithredu proses drylwyr, ddiogel a thryloyw o recriwtio a dewis gwirfoddolwr.<br><br>✓ Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn deall yr ymrwymiad hirdymor sydd ei angen i wneud y rôl.<br><br>✓ Recriwtio gwirfoddolwyr sy'n gallu diwallu amrywiaeth o anghenion megis siarad Cymraeg ac ieithoedd eraill (os bydd hynny'n ofynnol) ac sydd hefyd â sgiliau o ran meithrin cysylltiadau â phlant sydd ag anawsterau cyfathrebu. |

**Arferion da**

- Gweithredu i recriwtio grŵp amrywiol o wirfoddolwyr gan ystyried amrywiaeth y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal a'r plant a'r bobl ifanc a atgyfeiriwyd. Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried y gwahanol fathau o wirfoddolwyr a'u cryfderau a'u cyfraniadau priodol, e.e. myfyrwyr, oedolion sydd â phrofiad o dderbyn gofal, gweithwyr cymdeithasol sydd wedi ymddeol ac oedolion perthnasol eraill.

- Dylai pob gwirfoddolwr gael gwiriadau manylach gan y DBS a dylent ddarparu o leiaf ddau dystlythyr. Dylai mwy nag un unigolyn ymwneud â'r broses o gymeradwyo gwirfoddolwyr i ddod yn YA. Dylai ymgeiswyr llwyddiannus ddangos bod ganddynt y sgiliau a'r priodoleddau angenrheidiol i gynorthwyo plant a phobl ifanc yn effeithiol, ynghyd â thystiolaeth o hyfforddiant, cyfweliadau a geirdaon.

- Cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o recriwtio a dewis eu YA eu hunain cymaint ag y bo modd.

- Dylai safbwyntiau a dymuniadau plant neu bobl ifanc fod yn hollbwysig yn y broses o baru. Ystyriwch eu profiadau a'r gweithgareddau yr hoffent ei wneud, yn ogystal ag oedran, rhywedd a phrofiadau'r person ifanc a'r gwirfoddolwr. Cynhwyswch ofynion pobl ifanc (er enghraifft, o ran diddordebau a phersonoliaeth) ym manyleb y sawl sy'n YA.

- Darparu cyfle i ystyried newid YA os bydd plentyn neu berson ifanc yn teimlo nad yw'r berthynas bresennol yn llwyddo.

- Mae'r berthynas rhwng yr YA a'r plentyn neu'r person ifanc yn un unigryw sy'n bodoli i hyrwyddo mannau diogel a chyfleoedd yn arbennig ar gyfer yr unigolyn, a chaiff y berthynas ei harwain gan y plentyn/person ifanc. Yn gyffredinol, dylai darparwyr baru YA ag un plentyn neu berson ifanc tra bydd yn gwneud y gwaith. Fodd bynnag, gallai fod eithriadau i hyn i alluogi hyblygrwydd dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft:

    - Pan fydd gan YA sgiliau neu arbenigedd mewn maes cysylltiedig a fyddai'n fuddiol i'r plentyn neu'r person ifanc ac mae recriwtio YA sydd â'r setiau sgiliau hyn yn heriol.
    - Pan gaiff plentyn neu berson ifanc ei leoli oddi allan i'r sir a bydd darparwr gwasanaethau'r awdurdod sy'n ei leoli yn cytuno i'r trefniant hwn.
    - Pan fydd cytundeb rhwng darparwyr gwasanaethau a'r YA.
    - Wrth baratoi i ddirwyn perthynas ag YA i ben.

- Mae rôl yr YA yn golygu bod angen ymrwymiad tymor hir i ymgyfeillio â phlentyn, felly bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod hyn yn cael sylw yn y broses o recriwtio a dewis darpar YA. Mae'n bwysig nodi y disgwylir ymroddiad i flwyddyn o wirfoddoli o leiaf i sicrhau cysondeb a datblygu sefydlogrwydd ar gyfer plentyn/neu berson ifanc sy'n aml wedi profi llawer o darfu a phethau yn dirwyn i ben. Nid oes cyfyngiad ar faint y gall y berthynas rhwng YA a phlentyn/person ifanc bara, cyn belled ag y caiff hynny ei gytuno o fewn ei gynllun gofal a'i fonitro'n rheolaidd mewn cyfarfod adolygu ynghylch unigolyn sy'n derbyn gofal.

- Dylid gwneud pob ymdrech i baru plentyn/person ifanc â gwirfoddolwr o fewn 3 mis ar ôl cael yr atgyfeiriad. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi llaesu dwylo ac i sicrhau y caiff y berthynas briodol ei sefydlu i raddau helaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd darparwyr y gwasanaethau yn parhau i gysylltu â'r plentyn/person ifanc a'r awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn cael diweddariadau ynghylch y broses baru.

**Safon 6: Hyfforddiant a chefnogaeth**

Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu paru â gwirfoddolwr sydd wedi cael hyfforddiant ac sy'n parhau i gael cymorth i'w helpu i gyflawni ei rôl.

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Rydym ni'n dymuno i wasanaethau ein cynnwys ni yn y gwaith o hyfforddi Ymwelwyr Annibynnol. Gallai hyn gynnwys helpu i ddatblygu deunyddiau hyfforddi yn ogystal â darparu'r hyfforddiant fel y gellir gwrando ar ein profiadau a'u hystyried. Dylai'r Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol gydnabod a gwobrwyo ein cyfraniadau."*

| Bydd yr awdurdod lleol yn: | Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn: |
|---|---|
| ✓ Ceisio cael tystiolaeth o bolisïau hyfforddiant a chymorth gan ddarparwr cyn dyfarnu cytundeb. | ✓ Sicrhau bod Ymwelwyr Annibynnol yn cael cymorth a hyfforddiant cyn ac yn ystod eu cyfnod yn gwirfoddoli. |

**Arferion da**

- Dylai plant a phobl ifanc gyfrannu at y gwaith o lunio a darparu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr.
- Dylai hyfforddiant cychwynnol gwirfoddolwyr gynnwys: diogelu, cefndir ac amgylchiadau plant sy'n derbyn gofal (yn cynnwys plant sydd ag anableddau a cheiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain), terfynau , cyfrinachedd, cyfathrebu, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac iechyd a diogelwch.
- Dylai'r cymorth a gaiff YA gan ddarparwr y gwasanaeth fod yn gynhwysfawr a dylai gynnwys: cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd, sesiynau grŵp, gallu cael cymorth y tu allan i oriau gwaith, a gallu cyfranogi mewn cyfleoedd hyfforddiant a datblygu.
- Dylai'r awdurdod lleol sy'n comisiynu'r gwasanaeth ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau esbonio a dangos sut byddant yn cynorthwyo YA i reoli gofynion y rôl.

| PERTHNASOEDD | |
|---|---|
| **Safon 7: Cychwyn a gorffen**<br><br>Bydd plant a phobl ifanc yn cael gwybod sut mae'r gwasanaeth yn gweithio, gan gynnwys sut y byddant yn cwrdd â'u hymwelydd annibynnol am y tro cyntaf a sut y gallent ffarwelio. | |
| **Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**<br><br>*"Rydym yn dymun cyfraogi'n llawn wrth gael ein cyfeirio at y Gwasanaeth Ymweliadau Annibynnol. Dylem allu atgyfeirio ein hunain ar ôl cytuno y dylem ni gael Ymwelydd Annibynnol. Dylem gael gwybodaeth glir ynghylch sut i wneud hyn a dylai gwneud hynny fod yn syml ac yn rhwydd. Rydym yn dymuno cael dweud ein dweud am ba wybodaeth sy'n cael ei rhannu â'r Gwasanaeth Ymweliadau Annibynnol a chael pobl eraill sy'n bwysig i ni hefyd i gyfrannu at ein hatgyfeiriad fel gofalwyr maeth ac aelodau'r teulu os dymunwn."*<br><br>*"Mae'n bwysig ein bod yn cael dweud eich dweud ynglŷn â phryd a sut bydd ein perthynas â'n Hymwelwyr Annibynnol yn dod i ben; ni ddylai ymweliadau stopio'n ddisymwth a dylem allu ffarwelio'n iawn. Rydym ni'n dymuno i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ganiatáu i ni barhau i gael ein Hymwelydd Annibynnol ar ôl troi'n 18 oed os mai dyma beth mae'r person ifanc a'r Ymwelydd Annibynnol yn ei ddymuno."* | |
| **Bydd yr awdurdod lleol yn:**<br><br>✓ Rhoi proses glir ar waith ar gyfer cyfeirio plentyn neu berson ifanc (neu gynorthwyo plentyn i gyfeirio ei hunan) at y gwasanaeth YA, egluro'r hyn y gall ei ddisgwyl o ran amseroedd aros a'r broses baru a diweddaru'n rheolaidd. | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:**<br><br>✓ Rhoi proses glir a chyson ar waith ar gyfer atgyfeirio, paru a gorffen yn gadarnhaol. |
| **Arferion da**<br><br>➢ Dylai awdurdodau lleol fod â gweithdrefn glir yn ei lle i ystyried a phenodi YA ar gyfer plentyn neu berson ifanc, yn cynnwys nodi pwy all wneud atgyfeiriadau a sut. Pan fydd hynny'n bosibl, dylid derbyn atgyfeiriadau yn uniongyrchol gan y plentyn neu'r person ifanc, yn ogystal â gan y sawl sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc neu'n gofalu amdano.<br><br>➢ Dylid hysbysu pawb sy'n gymwys i wneud atgyfeiriad a dylid eu hysbysu am y weithdrefn hefyd.<br><br>➢ Dylai cyfarwyddiadau a chyngor ynghylch datblygu perthnsoedd cadarnhaol a sut i orffen y berthynas â'r YA os na fydd yn llwyddo gael eu cytuno â'r plentyn neu'r person ifanc sydd dan sylw.<br><br>➢ Fel rhan o broses cynllunio'r Llwybr, dylai awdurdodau fynd ati'n rheolaidd i ystyried buddion parhau â pherthynas rhwng YA a pherson ifanc ar ôl i'r person ifanc droi'n 18 oed, i gynorthwyo â'r broses o bontio i fyw yn annibynnol. | |

| **Safon 8: Cyfeillgar ac ymddiriedus** | |
|---|---|
| Gall plant a phobl ifanc ddisgwyl y bydd yr Ymwelydd Annibynnol yn datblygu perthynas ymddiriedus â hwy drwy ymweld yn rheolaidd a thrwy fod yn gyfeillgar. | |
| **Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc** | |
| *"Rydym ni'n dymuno i'n Hymwelydd Annibynnol fod yn ddibynadwy ac wedi ymrwymo i fod yn wirfoddolwr tymor hir. Rydym yn dymuno i'n Hymwelydd Annibynnol allu dod i'n cyfarfodydd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'n cefnogi ni fel ffrind os yw hyn yn rhywbeth yr hoffem iddo ddigwydd ac os byddwn wedi cytuno iddo."* | |
| **Bydd yr awdurdod lleol yn:** | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:** |
| ✓ Siarad â'r plentyn neu'r person ifanc am eu perthynas â'u Hymwelydd Annibynnol a pha mor llwyddiannus yw hynny iddynt. | ✓ Cynorthwyo'r Ymwelydd Annibynnol i ymgyfeillio â'r plentyn a sefydlu perthynas seiliedig ar ymddiriedaeth trwy ymweliadau rheolaidd a chyswllt. Bydd yn plentyn/person ifanc hefyd i weld a yw eu perthynas â'u YA yn llwyddo. |

**Arferion da**

- Er y bydd hyn yn dibynnu ar y gwasanaeth unigol a phob perthynas, dylai YA ddisgwyl gwneud ymweliad o leiaf unwaith y mis. Bydd unrhyw beth llai aml yn golygu bod datblygu perthynas ymddiriedus yn anodd iawn.
- Mae'r berthynas â'r YA rhwng y gwirfoddolwr a'r plentyn neu'r person ifanc. Nid yw'n briodol i aelodau teulu'r YA neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn/person ifanc fod yn bresennol yn ystod ymweliadau.
- Ni ddylid caniatáu i'r plentyn/person ifanc ymweld â chartref yr YA o dan unrhyw amgylchiadau a dylai hyn fod yn rhan o'r broses o osod terfynau yn yr hyfforddiant a'r rhaglen cynefino a gynigir i'r YA. Dylid hysbysu hyn yn glir i'r bobl ifanc ar y cychwyn.
- Dylai YA gadw at ofynion Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a pholisi darparwr y gwasanaethau YA ynghylch cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol. Dylai darparwr y gwasanaethau YA hysbysu'r plentyn/person ifanc a'r gwirfoddolwr yn glir na ddylai gysylltu trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol arferol ac mae angen i'r terfynau hyn gael eu hegluro pan fydd y berthynas yn cychwyn.
- Os bydd plentyn neu berson ifanc wedi dweud ei fod yn dymuno i'w YA fynychu cyfarfodydd ffurfiol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol neu sefydliadau eraill, dylid cefnogi hynny pan fo'n bosibl. Dylai'r darparwr gwasanaethau YA egluro rôl yr YA yn glir wrth yr YA a'r plentyn/person ifanc, ac os bydd materion penodol yn codi sy'n amlwg yn ymwneud ag eiriolaeth broffesiynol, dylid cyfeirio hyn at y darparwr gwasanaethau eiriolaeth lleol â chaniatâd y plentyn/person ifanc.

# RHEOLWYR

<table>
<tr><td colspan="2">

**Safon 9: Adborth rheolaidd**

Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddweud eu barn am eu hymwelydd annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hapus â'r berthynas.

</td></tr>
<tr><td colspan="2">

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Dylai'r gwasanaeth ymweliadau annibynnol gysylltu â ni yn rheolaidd i sicrhau fod pethau yn mynd yn iawn â'n perthynas. Dylai pobl ifanc allu penderfynu sut y mae'r gwasanaeth Ymweliadau Annibynnol yn cysylltu â hwy e.e. dros y ffôn, negeseuon testun, ymweliadau. Dylem ni wybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth ac â phwy os bydd angen i ni gysylltu."*

</td></tr>
<tr><td>

**Bydd yr awdurdod lleol yn:**

✓ Siarad â'r plentyn neu'r person ifanc am eu perthynas â'u hymwelydd Annibynnol a chysylltu â'r gwasanaeth os bydd unrhyw bryderon.

</td><td>

**Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:**

✓ Gwirio bod perthnasoedd ag Ymwelwyr Annibynnol yn gweithio'n dda, gan wrando ar blant a phobl ifanc - i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel ac yn hapus .

</td></tr>
<tr><td colspan="2">

**Arferion da**

- Dylai'r gweithiwr cymdeithasol a darparwr y gwasanaethau YA ofyn i blant a phobl ifanc am adborth yn rheolaidd. Er enghraifft, gofyn iddynt: Beth yw eu barn am eu perthynas â'u hymwelydd annibynnol? Beth maent wedi'i gyflawni gyda'i gilydd? A sut mae'r berthynas â'r YA yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt?
- Dylai'r trefniant i'w paru ag YA gael ei adolygu gan yr awdurdod lleol ym mhob Adolygiad Statudol a dylai'r IRO ofyn am adborth gan y plentyn/person ifanc, yr YA, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol. Dylai darparwyr gwasanaethau hefyd fod yn cael adborth uniongyrchol yn rheolaidd gan y plentyn, yr YA, y gweithiwr cymdeithasol a'r gofalwr i fonitro'r berthynas.

</td></tr>
</table>

**Safon 10: Annibyniaeth**

Mae ymwelwyr annibynnol yn wirfoddolwyr ac nid ydynt yn gweithio i'r plentyn nac i adran gwasanaethau cymdeithasol y plentyn.

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Mae'n bwysig i ni nad oes gan ein Hymwelydd Annibynnol unrhyw gysylltiad â'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr ydym yn gysylltiedig â hi."*

| **Bydd yr awdurdod lleol yn:** | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:** |
|---|---|
| ✓ Comisiynu darparwr annibynnol i redeg a rheoli'r gwasanaeth. | ✓ Sicrhau fod y plentyn yn cael ei baru â gwirfoddolwr sy'n annibynnol ar adran gwasanaethau cymdeithasol y plentyn . |

**Arferion da**

- Yn ystod y broses recriwtio, mae'n hanfodol sicrhau nad oes gan y darpar YA unrhyw unrhyw wrthdaro o ran cael ei baru ag unrhyw blentyn/person ifanc. Byddai hynny'n cynnwys gweithiwr cymdeithasol, IRO, gofalwr maeth neu unrhyw unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau rheolaidd ynghylch cynllun gofal y plentyn/person ifanc a byddid yn ystyried y gallai gwrthdaro godi. Gall Gweithwyr Cymdeithasol, IROs a gofalwyr maeth fod yn YA os nad yw'r plentyn/person ifanc wedi cael unrhyw brofiad blaenorol gyda'r unigolyn ac os yw'n gweithio i awdurdod lleol arall sy'n wahanol i'r un sy'n gwasanaethu'r ardal ble mae'r plentyn/person ifanc yn preswylio. O dan yr amgylchiadau hyn, caiff unrhyw wrthdaro yn y dyfodol ei fonitro trwy gyfrwng cyfarfodydd goruchwylio ac chyfarfodydd ynghylch arferion gorau rhwng yr YA a darparwr y gwasanaeth.

- Mae'r cysyniad o 'annibynniaeth' yn bwysig iawn i blant a phobl ifanc. Dylai YA, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a gweithwyr preswyl weithredu ac ymddwyn mewn modd sy'n dangos bod yr YA yn annibynnol ar y gwasanaethau cymdeithasol.

- Mae cyngor ynghylch comisiynu rôl annibynnol o'r fath wedi cael ei ddatblygu ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad D.

**Safon 11: Cadw’n ddiogel**

Mae rheolau ar waith i gadw plant/pobl ifanc a'r Ymwelydd Annibynnol yn ddiogel wrth weithio gyda'i gilydd.

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*“Mae angen i wasanaethau ymweliadau annibynnol ddweud yn glir wrthym ni pryd a sut y mae angen iddynt gadw pobl ifanc ac Ymwelwyr Annibynnol yn ddiogel a rhoi gwybodaeth i ni sy'n glir ac yn hawdd ei deall megis asesiadau o risgiau ar gyfer gweithgareddau.”*

| Bydd yr awdurdod lleol yn: | Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn: |
|---|---|
| ✓ Pennu manyleb gwasanaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith yn unol â gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. | ✓ Rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Bydd angen diweddaru hefyd pan fydd gweithdrefnau newydd yn eu lle. |

**Arferion da**

- Dylai YA gael hyfforddiant ynghylch Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, gweithdrefnau’r awdurdod lleol a gweithdrefnau amddiffyn plant darparwr y gwasanaethau YA.

- Dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn ddiweddaru’r gwasanaeth YA am unrhyw newidiadau i’r proffil risgiau.

- Oherwydd natur gwaith yr YA (oddi allan i oriau gwaith arferol), dylai darparwyr gwasanaethau YA sicrhau bod ganddynt bolisi a system adrodd briodol yn eu lle ar gyfer gweithwyr unigol, er mwyn sicrhau diogelwch gwirfoddolwyr a phobl ifanc. Er enghraifft, mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe yn darparu rhif gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau gwaith arferol i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu ar unwaith a byddir yn trafod hyn yn ystod yr hyfforddiant a ddarperir i wirfoddolwyr. Mae gan NYAS rif cyswllt mewnol a ddefnyddir y tu allan i oriau gwaith arferol y gall gwirfoddolwyr ei ddefnyddio mewn argyfwng.

- Dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau hefyd fod ganddynt bolisïau yn eu lle ynghylch diogelu data, cyfrinachedd, rhannu gwybodaeth, trefniadau ar gyfer gwirfoddolwyr a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

| **Safon 12: Adnoddau priodol** | |
|---|---|
| Mae digon o gyllid ar gael i ddarparu cymorth gan reolwyr a staff ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd â hawl i gael Ymwelydd Annibynnol os ydynt yn dymuno hynny. | |
| **Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc** | |
| *"Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc. Ni ddylai p'un ai a oes gennym Ymwelydd Annibynnol ai peidio ddibynnu ar ble rydym yn byw. Mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd sicrhau eu bod yn darparu digon o gyllid i'n gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol fel y gallant ddarparu gwasanaeth digon da a diwallu ein hanghenion."* | |
| **Bydd yr awdurdod lleol yn:**<br><br>✓ Cynnal ymarfer mapio blynyddol i bennu niferoedd cymwys o blant sydd â phrofiad o dderbyn gofal a defnyddio'r amcangyfrif hwn fel sail i bennu'r cyllid ar gyfer y gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol.<br><br>✓ Dyrannu lefel briodol o adnoddau i sicrhau bod digon o arian ar gael i gynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc yr asesir bod ganddynt hawl i gael cymorth gan YA yn unol â deddfwriaeth gyfredol. | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:**<br><br>Dyrannu lefel briodol o gyllid i ariannu rheolwyr, staff a gweithgareddau a chostau teithio. |

**Arferion da**

- Wrth gomisiynu gwasanaethau YA, dylai awdurdodau lleol wneud hynny ar sail asesiad o anghenion ei boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal. Gall yr adnodd asesu yn Atodiad C gynorthwyo awdurdodau lleol i fapio niferoedd cymwys o blith cyfanswm y boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal.

- Mae angen i'r adnoddau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer y gwasanaeth YA gynnwys digon o gyllid i dalu costau ymweliadau rheolaidd (yn amrywio o rai wythnosol i rai misol, yn dibynnu ar angen) gan gynnwys costau gweithgareddau a chostau teithio'r YA. Yn ôl y cyngor presennol gan ddarparwyr gwasanaethau, mae'n costio tua £2,400 y flwyddyn i baru person ifanc ag YA.

- Dylai system fod yn ei lle i ganiatáu ystyried darparu cyllid ychwanegol i dalu costau mewn ymateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid. Er enghraifft, os bydd plentyn yn symud i leoliad y tu allan i'r sir a bydd costau teithio'r YA yn cynyddu'n sylweddol, neu os penderfynir parhau i gynnal y berthynas â'r YA ar ôl i'r person ifanc droi'n 18 oed. Mae hyn eisoes yn digwydd mewn nifer o awdurdodau lleol.

**Safon 13: Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Gall plant a phobl ifanc ddisgwyl y bydd y gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol yn trin pawb yn deg ac yn eu parchu.

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**

*"Rydym ni'n dymuno i'n Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol ystyried ein hanghenion penodol o ganlyniad i'n rhywedd, rhywioldeb, ethnigrwydd, diwylliant, anabledd ac iaith, a sicrhau na fyddwn yn cael ein trin yn annheg."*

| Bydd yr awdurdod lleol yn: | Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn: |
| --- | --- |
| ✓ Gosod disgwyliad ym manyleb y gwasanaeth y bydd gan y darparwr bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. | ✓ Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth gan sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn, person ifanc na gwirfoddolwr.<br>✓ Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb wrth ddiwallu anghenion amrywiol plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, er enghraifft, plant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt a phlant sydd wedi cyrraedd Cymru yn ddiweddar o wledydd eraill. |

**Arferion da**

- Dylai'r plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth YA adlewyrchu nodweddion y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal yn yr ardal honno.
- Wrth ystyried sut i ddyrannu adnoddau, mae angen cydnabod y gallai adnoddau ychwanegol fod yn ofynnol dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, i dalu costau llawn cludiant pan fydd plant a phobl ifanc yn byw mewn mannau anghysbell neu'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir, neu ar gyfer plant/pobl ifanc sydd newydd gyrraedd y wlad neu rai y mae arnynt angen cyfieithydd.
- Dylai gwirfoddolwyr gael hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

| **Safon 14: Gwneud cwyn**<br><br>Mae plant a phobl ifanc yn deall sut y gallant wneud cwyn am y gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol. | |
|---|---|
| **Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc**<br><br>*"Mae angen i ni wybod sut i wneud cwyn os bydd angen gwneud hynny, mae angen i ni gael gwybodaeth glir a hawdd ei deall ynghylch sut i wneud cwyn a chael ein cynorthwyo gan rywun o'r gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol os bydd hynny'n ofynnol.* | |
| **Bydd yr awdurdod lleol yn:**<br><br>✓ Gosod disgwyliad y bydd gan yr asiantaeth sy'n darparu'r gwasanaeth drefn gweithredu cwynion drylwyr yn ei lle. | **Bydd darparwyr gwasanaethau YA yn:**<br><br>✓ Rhoi trefn gweithredu cwynio sy'n glir a hawdd ei defnyddio ar waith ac ymateb yn gyflym ac o ddifrif i unrhyw gwynion o'r fath. |
| **Arferion da**<br><br>➢ Dylai plant a phobl ifanc, YA, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol gael gwybodaeth ysgrifenedig am drefn gweithredu cwynion y gwasanaeth. Dylai hynny gael ei egluro ar lafar hefyd i sicrhau bod pawb sydd dan sylw yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaeth ymweliadau annibynnol. | |

## ATODIAD A

## Detholiad o Ran 6 – Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (diwygiwyd yn Ebrill 2018) (tudalennau 86-88)

330. Mae gan awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn ddyletswydD i benodi person annibynnol i fod yn ymwelydd y plentyn os yw'r awdurdod yn credu bod hynny er budd pennaf y plentyn. Adran 98(1) o'r Ddeddf.

331. Mae'r Rheoliadau CPPCR yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol ystyried a fyddai'n briodol penodi ymwelydd annibynnol ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano o dan yr amgylchiadau canlynol:

- nid yw'r plentyn wedi byw gyda rhiant (neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn) yn ystod y 12 mis blaenorol
- nid oes cyswllt wedi bod rhwng y plentyn a'r rhiant (neu'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant), neu mae'r cyswllt wedi bod yn anghyson.

332. Dylid ystyried a oes angen ymwelydd annibynnol ar y plentyn fel rhan o gynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn, neu pan gaiff achos plentyn ei adolygu.

333. Mae'r Rheoliadau CPPCR yn nodi'r ffactorau canlynol y dylai'r awdurdod eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â phenodi ymwelydd:

- a fyddai penodi ymwelydd annibynnol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant y plentyn
- os yw'r plentyn wedi'i leoli ymhell o'i gartref neu y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, a yw'r lleoliad yn ei gwneud yn anodd cynnal trefniadau cyswllt digonol (er enghraifft, gyda theulu a ffrindiau)
- a yw'r plentyn yn methu mynd allan yn annibynnol neu a yw'n anodd iddo gyfathrebu neu ddatblygu perthynas gadarnhaol ag eraill
- a yw'r plentyn yn debygol o ymddwyn mewn ffordd a all roi'r plentyn mewn perygl o ffurfio perthynas anaddas
- os yw'r plentyn wedi'i leoli mewn cartref plant, a fyddai cyfle i sefydlu perthynas ag ymwelydd annibynnol yn hyrwyddo llesiant y plentyn.

334. Rôl ymwelydd annibynnol yw ymweld â phlentyn, ymgyfeillio ag ef, a'i gynghori. Adran 98(2) o'r Ddeddf.

335. Os yw awdurdod lleol yn penderfynu ei bod yn briodol penodi ymwelydd annibynnol ar gyfer plentyn, mae'n rhaid iddo egluro rôl ymwelydd annibynnol i'r plentyn, mewn ffordd sy'n addas i oedran a dealltwriaeth y plentyn. Dylai'r awdurdod lleol ganfod dymuniadau a theimladau'r plentyn hefyd. Ni ddylai'r awdurdod lleol benodi ymwelydd annibynnol os yw'r plentyn yn gwrthwynebu hynny ac os yw'r awdurdod yn fodlon bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad gwybodus.

336. Mae'r Rheoliadau CPPCR yn gosod rhai cyfyngiadau ar bwy y gellir penodi'n ymwelydd annibynnol, er mwyn sicrhau bod ymwelydd yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. Ni ellir penodi'r unigolion canlynol:

- aelod etholedig neu gyfetholedig o'r awdurdod lleol neu unrhyw un o'i bwyllgorau
- swyddog o'r awdurdod lleol a gyflogir i arfer swyddogaethau penodol, gan gynnwys swyddogaethau addysg neu wasanaethau cymdeithasol
- priod, partner sifil neu berson arall (o wahanol ryw neu o'r un rhyw) sy'n byw ar yr un aelwyd â'r person sy'n aelod neu'n swyddog yr awdurdod lleol.

337. Dylai awdurdodau lleol ystyried ymhob adolygiad a oes angen ymwelydd annibynnol ar y plentyn o hyd, ac a yw'n briodol parhau i benodi'r ymwelydd penodol. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried y ffordd fwyaf priodol o ganfod dymuniad y plentyn ynglŷn â pharhad y berthynas. Mae'n rhaid i'r awdurdod derfynu'r berthynas os yw'r plentyn yn ei gwrthwynebu ac os yw'r awdurdod yn fodlon bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Os yw hyn yn digwydd, bydd angen i'r awdurdod lleol drafod â'r plentyn a fyddai'n briodol penodi ymwelydd annibynnol arall.

338. Mae penodiad fel ymwelydd annibynnol ar gyfer plentyn penodol yn dod i ben os daw gofal yr awdurdod lleol dros y plentyn i ben. Hefyd, gall y penodiad gael ei derfynu ar ffurf ysgrifenedig gan yr ymwelydd neu'r awdurdod lleol. Os yw ymwelydd annibynnol yn gweithredu mewn perthynas â nifer o blant, nid yw terfynu penodiad mewn perthynas ag un plentyn yn terfynu'r penodiad mewn perthynas â'r lleill yn awtomatig. Dylid ystyried pob achos ar wahân.

339. Mae gan yr ymwelydd annibynnol hawl i adennill unrhyw dreuliau rhesymol gan yr awdurdod lleol. Dylai'r cyfryw dreuliau gynnwys taliadau teithio neu fân dreuliau, ond nid yw'n cynnwys taliad neu gyflog rheolaidd am ymgymryd â'r rôl.

## ATODIAD B

## Taflen ar gyfer pobl ifanc



**What is an Independent Visitor?**

Independent Visitors (IVs) are people from all walks of life who **VOLUNTEER** to spend their free time to become a friend and trusted adult to children and young people who are in care.

You have a **RIGHT** to an IV if this would be in your **BEST INTERESTS** and this is something that you **CHOOSE** to have.

Your relationship with an IV is **LONG TERM** so you are able to build a lasting **FRIENDSHIP** together.

IVs come to see you on a regular basis and you get to do **FUN ACTIVITIES** together and share **NEW EXPERIENCES**.

IVs are not associated with Social Services, so they are able to look out for your **BEST INTERESTS.**

The relationship with your IV is **CONFIDENTIAL** this means they will not share anything you talk about with anyone else unless you or someone else are at risk of being harmed.

It's important that children and young people in care get to **HAVE A SAY** about how their IV Service is run and are invited to share their views and experiences to help shape those services.

**HOW SHOULD INDEPENDENT VISITOR SERVICES BE RUN?**

In Wales we have the **Welsh Independent Visiting Standards**. These set out what IV Services should look like for children and young people across Wales. They are there to make sure that children and young people get the best out of their IV Service.

You can find the young person's version of the IV Standards by going to (link here to Welsh Gov)

**IF I WANT AN INDEPENDENT VISITOR HOW DO I GET ONE?**

Ask your Social Worker or Independent Reviewing Officer and they can help you to be referred to your Independent Visiting Service.

Or you can find out who your Independent Visiting Service is by contacting MEIC and they can help you speak to someone in the IV Service directly on Freephone **0808 802345** or text **84001**



**Beth yw Ymwelydd Annibynnol?**

Ymwelwyr Annibynnol (YA) yw pobl o bob math o feysydd sy'n **GWIRFODDOLI** i dreulio eu hamser rhydd i ddod yn gyfaill ac yn oedolyn dibynadwy i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal.

Mae gennych **HAWL** i YA os ydy hyn **O LES** i chi ac mae hyn yn rhywbeth yr ydych yn **DEWIS** ei gael.

Mae'ch perthynas â YA yn un **HIR DYMOR** er mwyn i chi greu **PERTHYNAS DA** parhaol gyda'ch gilydd.

Daw YA i'ch gweld yn rheolaidd a chewch wneud **GWEITHGAREDDAU HWYLIOG** gyda'ch gilydd a rhannu **PROFIADAU NEWYDD**.

Nid yw AY yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, felly gallent edrych ar ôl eich **LLES CHI**.

Mae'r perthynas â'ch YA yn **GYFRINACHOL**, mae hyn yn golygu ni fydden yn rhannu unrhyw beth yr ydych yn sôn amdano ag unrhyw un arall oni bai eich bod chi neu rywun arall mewn perygl o gael eich niweidio.

Mae'n bwysig bod gan blant a phobl ifanc mewn gofal **LLAIS** i ddweud am sut mae eu Gwasanaeth AY yn cael ei redeg ac yn cael eu gwahodd i rannu eu barn a'u profiadau i helpu i lunio'r gwasanaethau hynny.

**SUT DDYLAI GWASANAETHAU YMWELWYR ANNIBYNNOL CAEL EU RHEDEG?**

Yng Nghymru mae gennym **Safonau Ymwelwyr Annibynnol Cymru**. Mae'r safonau yma yn nodi sut ddylai gwasanaethau YA rhedeg ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru. Maent yno i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gorau o'u Gwasanaeth AY.
Gallwch ddod o hyd i fersiwn o'r Safonau YA i bobl ifanc ar www.gov.wales.

**OS YDW I EISIAU YMWELYDD ANNIBYNNOL SUT YDW I'N CAEL UN?**

Gofynnwch i'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu'ch Swyddog Adolygu Annibynnol i helpu i gael eich cyfeirio at eich Gwasanaeth Ymweld Annibynnol.

Neu gallwch ddarganfod pwy yw eich Gwasanaeth Ymweld Annibynnol trwy gysylltu â MEIC. Gallen nhw eich helpu i siarad â rhywun yn y Gwasanaeth AY yn uniongyrchol un rhad ac am ddim ar **0808 802345** neu tecst **84001**.

# ATODIAD C

## Penodi Ymwelydd Annibynnol: Pa blant a phobl ifanc?

Yn unol â Safon 1, cynghorir awdurdodau lleol i ystyried penodi Ymwelydd Annibynnol (YA) ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal sydd dros 7 oed gan ddefnyddio meini prawf ynghylch lles pennaf a nodir yn y Codau Ymarfer sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Datblygwyd yr adnodd hwn trwy ymgynghori â rhanddeiliaid i gynorthwyo awdurdodau lleol i asesu a fyddai penodi YA (neu gynnal perthynas ag YA ar ôl i blentyn sy'n derbyn gofal droi yn 18 oed neu ar ôl i'w amgylchiadau newid mewn perthynas â chyswllt â'r teulu) er lles pennaf y plentyn. Mae'r adnodd hwn yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y ddarpariaeth a'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth adolygu a ddylid cynnig YA i blentyn. Cafodd ei lunio i'w gwblhau gan weithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) i baratoi at Adolygiad Statudol. Caiff ei ddefnyddio hefyd gan ddarparwr y gwasanaeth YA i helpu i bennu cymhwystra. Gallai'r adnodd gael ei ddefnyddio hefyd gan awdurdod lleol i asesu cymhwystra ac amcangyfrif poblogaeth darged gwasanaeth YA o blith y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny, gallai gynorthwyo â chynllunio strategol a dulliau o gomisiynu gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion (gweler Atodiad D).

### Pwy ddylai gael cynnig YA?

Mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn i benodi YA pan fydd yn ymddangos fod gwneud hynny er lles pennaf y plentyn. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi y dylid ystyried a oes ar blentyn angen YA fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn, neu pan adolygir achos y plentyn. Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (CPPCR) yn nodi bod yn **rhaid** i awdurdod lleol ystyried a fyddai'n briodol penodi Ymwelydd Annibynnol ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano:

- Os nad yw'r plentyn wedi byw gyda rhiant (neu gydag unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn) yn ystod y 12 mis blaenorol.
- Os nad oes cyswllt rhwng y plentyn a rhiant (neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant) wedi digwydd neu os yw hyn wedi digwydd yn anaml.

Nid yw'r Rheoliadau'n diffinio 'amlder' cyswllt â rhiant nac yn cynnwys cyfeiriad at ansawdd y cyswllt hwnnw â rhiant, er bod nifer o awdurdodau lleol yn gosod trothwy o lai na 4-6 cysylltiad y flwyddyn ac yn ystyried ansawdd y cyswllt hwnnw wrth wneud eu penderfyniadau.

Yn ogystal ag ystyried y prif feini prawf ynghylch amlder y cyswllt â rhiant (neu'r unigolyn â chyfrifoldeb rhiant) yn ystod y 12 mis blaenorol, mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi y dylid ystyried penodi YA os bernir fod hynny er lles pennaf y plentyn. Dylid ystyried nifer o ffactorau wrth bennu'r meini prawf ynghylch 'lles pennaf'. Mae'r tabl dilynol yn rhestru'r holl ystyriaethau.

| Ffactorau i'w ystyried | (ticiwch) | Sylwadau |
|---|---|---|
| Ceir ychydig neu ddim cyswllt â'r teulu<br><br>Nid yw'r cyswllt â'r teulu yn ystyrlon<br><br><br>A fyddai penodi Ymwelydd Annibynnol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant y plentyn? Er enghraifft:<br>a) at ei iechyd corfforol, ei iechyd meddwl a'i lesiant emosiynol;<br><br>b) at ei addysg, ei hyfforddiant a'i amser hamdden;<br><br>c) at gynorthwyo i'w amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;<br><br>d) at ei allu i fwynhau perthnasoedd personol diogel ac iach;<br><br>e) at ei alluogi i deimlo'n werthfawr a chyfranogi yn ei gymuned;<br><br>f) at ei fywyd cymdeithasol a'i helpu i dyfu'n oedolyn a bod yn annibynnol;<br><br>g) at ei allu i gael gwybodaeth a chyngor, cael ei drin ag urddas a pharch, a chael gwrandawiad i'w lais[6]. | | |
| A yw'r plentyn wedi'i leoli bellter o'i gartref (yn enwedig y tu allan i'r sir) sy'n ei gwneud hi'n anodd iddo gynnal cysylltiad digonol â ffrindiau, teulu ehangach a gweithiwr cymdeithasol? | | |
| A yw'r plentyn yn methu mynd allan yn annibynnol neu a yw'n anodd iddo gyfathrebu neu ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol? | | |
| A yw'r plentyn yn ymddwyn (neu'n debygol o ymddwyn) mewn ffordd a all roi'r plentyn mewn perygl o ffurfio perthnasoedd anaddas? | | |
| A yw'r plentyn wedi'i leoli mewn lleoliad preswyl ac a fyddai'r plentyn yn elwa o'r cyfle i sefydlu perthynas unigol unigryw ag ymwelydd annibynnol? | | |
| A yw'r plentyn yn profi nifer o leoliadau a'r anawsterau sy'n deillio o hynny o ran cynnal perthynas gadarnhaol barhaus ag o leiaf un oedolyn? | | |

[6] Mae'r rhain yn adlewyrchu'r canlyniadau llesiant cenedlaethol sydd i'w cyflawni o ran y bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Crynhowch yma yr achos dros benodi ymwelydd annibynnol ar gyfer y plentyn a/neu'r achos dros barhau i gynnal perthynas ag ymwelydd annibynnol pan fydd person ifanc yn troi'n 18. Cynhwyswch gyfeiriad at ddeilliannau llesiant y plentyn a'ch pryderon ynghylch beth allai ddigwydd pe na chaiff y plentyn ei gynorthwyo trwy'r dull hwn a/neu naodwch a ydych chi wedi gofyn i wasanaethau eraill am gyngor. Atodwch yr adnodd asesu hwn wrth y ffurflen atgyfeirio pan fyddwch yn atgyfeirio plentyn i gael gwasanaeth YA.

| |
|---|
| |

**Cydsyniad**

Rôl ymwelydd annibynnol yw ymweld ac ymgyfeillio â phlentyn a'i gynghori. Pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu ei fod yn briodol penodi YA ar gyfer plentyn, mae'r Rheoliadau yn datgan y bydd yn **rhaid** iddynt egluro rôl YA wrth y plentyn, mewn modd sy'n briodol i oedran a dealltwriaeth y plentyn a chanfod beth yw dymuniadau a theimladau'r plentyn. Ni all yr awdurdod lleol benodi Ymwelydd Annibynnol os bydd y plentyn yn gwrthwynebu a bydd yr awdurdod yn fodlon bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

# ATODIAD D

# Fframwaith Comisynu – Dull Cenedlaethol o Gomisynu Gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol ledled Cymru

## Adran 1 Cyflwyniad

Datblygwyd y fframwaith hwn i gefnogi comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n cyflawni gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol (YA) cyson ac effeithiol ledled Cymru. Dylid darllen a deall y fframwaith yng nghyd-destun y brif ddogfen: ***Safonau Ymarfer a Chanllawiau ynghylch Arferion Da*.**

### Amcanion

Dyma amcanion y fframwaith comisiynu:

- gwella ansawdd gwasanaethau YA ledled Cymru trwy weithredu'r 14 Safon Ymarfer Cenedlaethol
- sicrhau y gellir paru'r holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal ledled Cymru y mae arnynt angen gwasanaethau YA ag Ymwelydd Annibynnol wedi'i hyfforddi'n briodol
- sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau YA ledled Cymru yn gyson, yn hygyrch ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth allweddol
- galluogi awdurdodau lleol, yn unigol ar y cyd, i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg ac anghenion newidiol
- cynorthwyo â'r gwaith o gaffael gwasanaethau YA gan y darparwyr mwyaf medrus ac effeithlon

### Cynulleidfa

Mae'r fframwaith hwn wedi'i fwriadu ar gyfer:

- Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a phenaethiaid gwasanaethau plant
- Comisiynwyr o fewn llywodraeth leol
- Unigolion sy'n gyfrifol am wasanaethau plant neu bennu cyllidebau mewn awdurdodau lleol
- Awdurdodau lleol a rhieni corfforaethol.

Bydd hefyd o ddiddordeb i:

- Wleidyddion cenedlaethol sydd â diddordeb mewn gwasanaethau plant
- Darparwyr gwasanaethau YA
- Unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn polisi cyhoeddus sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.

## Adran 2: Safonau Ymarfer Cenedlaethol

Dyma'r safonau cenedlaethol ynghylch Ymwelwyr Annibynnol a amlinellir yn y ***Safonau Ymarfer a'r Canllawiau Arferion Da.*** Gweithredu'r safonau hyn yw un o amcanion allweddol y fframwaith hwn.

| |
|---|
| **Safon 1: Chi piau'r hawl a chi piau'r dewis**<br>• Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn deall eu hawl i gael Ymwelydd Annibynnol i ymweld â hwy, ymgyfeillio â hwy a'u cynghori - os ydynt yn dymuno cael un .<br>• Mae plant a phobl ifanc yn deall sut i ofyn am Ymwelydd Annibynnol ac yn gwybod pwy ddylent ei holi. |
| **Safon 2: Wedi'i arwain gan farn a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc**<br>• Mae darpariaeth ymwelwyr annibynnol yn cael ei harwain gan farn a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc .<br>• Gall plant a phobl ifanc ddewis a ydynt am gael Ymwelydd Annibynnol a phenderfynu ar bethau i'w gwneud gyda'i gilydd . |
| **Safon 3: Cyfrinachedd**<br>• Gall plant a phobl ifanc fod yn hyderus na wnaiff darparwr y gwasanaeth YA ddweud wrth neb am y pethau y byddant yn eu dweud wrthynt oni bai y bydd hynny er mwyn eu cadw hwy neu rywun arall yn ddiogel . |
| **Safon 4: Gwrando ar farn a syniadau plant a phobl ifanc er mwyn gwella'r gwasanaeth**<br>• Dylid rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddwyr gwasanaeth gyfranogi yn y gwaith o gynllunio, monitro ac adolygu'r gwasanaeth. **Yn ogystal â'r syniadau a gynigwyd gan y bobl ifanc yn y dyfyniad uchod, gall plant a phobl ifanc gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth trwy ymateb i arolwg, trefnu diwrnod gweithgareddau, hyfforddi a chyfweld gwirfoddolwyr, a gweithio i gyflawni prosiectau penodol megis llunio taflen newydd neu fideo byr.** |
| **Safon 5: Recriwtio a dewis**<br>• Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu paru â gwirfoddolwr sydd wedi'i ddewis fel rhywun sy'n addas i dreulio amser gyda hwy ac sy'n deall pwysigrwydd cynnal perthynas yn y tymor hir a darparu sefydlogrwydd a chysondeb dros amser. |
| **Safon 6: Hyfforddiant a chefnogaeth**<br>• Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu paru â gwirfoddolwr sydd wedi cael hyfforddiant ac sy'n parhau i gael cymorth i'w helpu i gyflawni ei rôl. |
| **Safon 7: Cychwyn a gorffen**<br>• Bydd plant a phobl ifanc yn cael gwybod sut mae'r gwasanaeth yn gweithio, gan gynnwys sut y byddant yn cwrdd â'u hymwelydd annibynnol yn gyntaf a sut y gallent ffarwelio. |
| **Safon 8: Cyfeillgar ac ymddiriedus**<br>• Gall plant a phobl ifanc ddisgwyl y bydd yr Ymwelydd Annibynnol yn datblygu perthynas ymddiriedus â hwy drwy ymweld yn rheolaidd a thrwy fod yn gyfeillgar . |
| **Safon 9: Adborth rheolaidd**<br>• Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddweud eu barn am eu Hymwelydd Annibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn fodlon â'r berthynas. |
| **Safon 10: Annibyniaeth** |

| |
|---|
| • Mae Ymwelwyr Annibynnol yn wirfoddolwyr ac nid ydynt yn gweithio i'r plentyn nac i adran gwasanaethau cymdeithasol y plentyn ac nid oes ganddynt unrhyw berthynas â'r plentyn na'r adran. |
| **Safon 11: Cadw'n ddiogel**<br>• Mae rheolau ar waith i gadw plant / pobl ifanc a'r Ymwelydd Annibynnol yn ddiogel wrth weithio gyda'i gilydd .<br>. |
| **Safon 12: Adnoddau priodol**<br>• Mae digon o gyllid ar gael i ddarparu cymorth rheoli a staff i bob plentyn a pherson ifanc sydd â hawl i gael Ymwelydd Annibynnol os ydynt yn dymuno cael un. |
| **Safon 13: Cydraddoldeb ac amrywiaeth**<br>• Gall plant a phobl ifanc ddisgwyl y bydd y gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol yn trin pawb yn deg ac yn eu parchu. |
| **Safon 14: Gwneud cwyn**<br>• Mae plant a phobl ifanc yn deall sut y gallant wneud cwyn am y gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol. |

## Adran 3 Fframwaith Cyfreithiol

Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddatblygu i gynorthwyo â'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau YA yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau allweddol.

### Deddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud ag Ymwelwyr Annibynnol

Mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn i benodi unigolyn annibynnol pan fydd yn ymddangos y byddai gwneud hynny er lles pennaf y plentyn. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi y dylid ystyried a oes ar blentyn angen ymwelydd annibynnol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gofal a chymorth Rhan 6 y plentyn, neu pan adolygir achos y plentyn. Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (CPPCR) yn nodi bod yn **rhaid** i awdurdod lleol ystyried a fyddai'n briodol penodi Ymwelydd Annibynnol ar gyfer plentyn y mae'n gofalu amdano:

- Os nad yw'r plentyn wedi byw gyda rhiant (neu gydag unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn) yn ystod y 12 mis blaenorol
- Os nad oes cyswllt rhwng y plentyn a rhiant (neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant) wedi digwydd neu os yw hyn wedi digwydd yn anaml.

**Yn ogystal** â'r uchod, gellir **hefyd** ystyried penodi YA ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal os pennir bod hynny er eu lles pennaf, felly dylid ystyried nifer o ffactorau eraill wrth wneud penderfyniad ynghylch penodi ymwelydd annibynnol ar gyfer plentyn neu berson ifanc unigol (os bydd y plentyn yn cydsynio i hynny). Yr ystyriaeth gyffredinol bwysicaf yw y byddai penodi

ymwelydd annibynnol er lles pennaf y plentyn. Dyma'r prif ffactorau i'w ystyried wrth bennu'r meini prawf ynghylch 'lles pennaf':

1. A fyddai penodi ymwelydd annibynnol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant y plentyn? Er enghraifft:
   a) at ei iechyd corfforol, ei iechyd meddwl a'i lesiant emosiynol;
   b) at ei addysg, ei hyfforddiant a'i amser hamdden;
   c) at ei amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
   d) at ei allu i fwynhau perthnasoedd personol diogel ac iach;
   e) at ei alluogi i deimlo'n werthfawr a chyfranogi yn ei gymuned;
   f) at ei fywyd cymdeithasol a'i helpu i dyfu'n oedolyn a bod yn annibynnol;
   g) at ei allu i gael gwybodaeth a chyngor, cael ei drin ag urddas a pharch, a chael gwrandawiad i'w lais.

2. A yw'r plentyn wedi'i leoli bellter o'i gartref (yn enwedig y tu allan i'r sir) sy'n ei gwneud hi'n anodd iddo gynnal cysylltiad digonol â ffrindiau a theulu ehangach?
3. A yw'r plentyn yn methu mynd allan yn annibynnol neu a yw'n anodd iddo gyfathrebu neu ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol?
4. A yw'r plentyn yn ymddwyn (neu'n debygol o ymddwyn) mewn ffordd a all roi'r plentyn mewn perygl o ffurfio perthnasoedd anaddas, er enghraifft, gyda phobl sydd gryn dipyn yn hŷn?
5. Os yw'r plentyn wedi'i leoli mewn lleoliad preswyl, a fyddai'r plentyn yn elwa o'r cyfle i sefydlu perthynas unigol unigryw ag ymwelydd annibynnol?

### Deddfwriaeth a rheoliadau sy'n fwyaf perthnasol i'w gwaith o gomisiynu gwasanaethau YA

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi creu dull gweithredu cenedlaethol ynghylch sut caiff gwasanaethau cymdeithasol eu cynllunio, eu llunio, eu comisiynu a'u darparu. Mae'r fframwaith hwn wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod hyn yn cadw at ofynion y dull gweithredu hwn.

Cod Ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau a threfniadau partneriaethau gwasanaethau cymdeithasol, mewn perthynas â Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys pobl y mae arnyn angen gofal a chymorth yn y gwaith o gomisiynu. O ganlyniad i hynny, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol:

- Roi trefniadau tryloyw ar waith sy'n sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn bartneriaid cyfartal yn y gwaith o gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau YA.

- Adrodd ar beth maent yn ei wneud i gefnogi cyd-gynhyrchu yn adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr.

## Adran 4: Fframwaith comisiynu ar gyfer darpariaeth YA

Mae fframwaith comisiynu yn ddull a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir ganddynt ynghylch comisiynu gwasanaethau a'r gwasanaethau a gaiff eu darparu maes o law mor effeithiol ag y bo modd.

Bydd y ffordd y mae'r fframwaith comisiynu hwn yn cael ei gymhwyso yn amrywio yn achos pob awdurdod lleol, ond trwy fabwysiadu'r fframwaith, bydd cynghorau yn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei gyflawni'n gyson ledled Cymru a bod deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn gwella.

**Egwyddor 1: Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau YA**


Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd sydd wedi'i datgan yn glir i ddarparu mynediad at Ymwelwyr Annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Oherwydd hynny, dylai awdurdodau lleol fod â phrosesau yn eu lle sydd ag adnoddau digonol ac sy'n cael eu cynnal yn briodol, sy'n caniatáu i blentyn neu berson ifanc gael mynediad at YA o fewn amserlen resymol.

> *"Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd sicrhau eu bod yn darparu digon o gyllid i'n gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol fel y gallant ddarparu gwasanaeth digon da a diwallu ein hanghenion."*
>
> Person ifanc, un o'r Ymgynghoreion ynghylch Safonau Ymarfer Ymwelwyr Annibynnol

**Y Cylch Comisiynu**

Caiff cysyniad y cylch comisynu ei ddeall a'i dderbyn yn eang gan y sawl sy'n gyfrifol am ddarparu gofal cymdeithasol ar gyfer plant yng Nghymru. Mae sawl gwahanol fersiwn o'r cylch comisiynu, ond yn gyffredinol, gellir ei rannu yn 4 elfen – ***Dadansoddi, Cynllunio, Darparu ac Adolygu***.

Dylai pob rhanddeiliad fod yn glir ynghylch beth sy'n digwydd yn ystod pob cam o'r cylch comisynu, beth yn union yw arfer da, a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r gweithgareddau penodedig.



**Egwyddor 2: Cydnabod pam mae gwasanaethau YA yn bwysig**

Er mwy comisynu unrhyw wasanaeth yn llwyddiannus, mae angen i bawb sy'n ymwneud â hynny fod yn ymwybodol o beth yn union yw'r gwasanaeth a pham mae mor bwysig.

Mae ymwelydd annibynnol yn wirfoddolwr sydd ddim yn gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol ac sydd heb unrhyw gysylltiadau ffurfiol â hwy, a'i rôl yw ymweld â phlentyn neu berson ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, ymgyfeillio ag ef a'i gynghori. Bydd ymwelwyr annibynnol yn ymdrechu i fod a pharhau i fod yn oedolyn cyson ym mywyd y plentyn pan fydd lleoliadau neu weithwyr cymdeithasol yn newid, a byddant yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn bob amser.

Mae Ymwelwyr Annibynnol yn bobl sy'n 'cadw cefn' y plentyn, yn annog grymuso'r plentyn ac yn sicrhau y caiff ei hawliau eu parchu. Mae'n bwysig cofio nad yw Ymwelwyr Annibynnol yn eiriolwyr proffesiynol annibynnol. Fodd bynnag, gall Ymwelwyr Annibynnol gynorthwyo plant i godi eu llais a byddant yn gwneud hynny, os mai dyna yw dymuniad y plentyn.

Mae perthnasoedd cyson ag oedolion dibynadwy, arwyddocaol, yn ffactor 'amddiffynol' ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Oherwydd hynny, mae YA yn gwneud cyfraniad pwysig iawn at fywydau'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cynorthwyo. Mae'r Sefydliad Economeg newydd wedi datblygu fframwaith[7] i gyfleu deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc a beth gellir ei gyflawni trwy gyfrwng perthnasoedd o'r fath.

Dyma'r deilliannau tymor hir a restrir:

- Llesiant personol; hyder gwell; hunan-barch; ymddiriedaeth; cydnerthedd; gallu gofyn am gymorth;
- Perthnasoedd personol; gallu sefydlu a chynnal perthnasoedd â chymheiriaid a chysylltiadau newydd yn well;
- Rhyngweithio cymdeithasol: rhwydwaith ehangach o gymorth; rhyngweithio cymdeithasol, sgiliau ac ymddygiadau gwell;
- Sgiliau ymarferol a datrys problemau, er enghraifft, cadw'n ddiogel, gwneud penderfyniadau, cyllidebu;
- Cyflawniad, e.e. personol, addysgol, datblygu sgiliau ac amrywiaeth o brofiad.

Fe wnaethant hefyd nodi deilliannau posibl ar gyfer yr unigolyn a'r gymdeithas:

- Llai o driwantiaeth a gwaharddiadau o ysgolion;
- Lleihau'r risg o ddod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant);
- Lleihau'r risg y gwnaiff pobl ifanc ac oedolion droseddu;
- Lleihau'r risg o lwyrddibyniaeth;
- Lleihau'r risg o iechyd meddwl [gwael].

[7] hiips://neweconomics.org/2014/06/relationships -children-care

## *Elfen un: Dadansoddi*

Elfen gyntaf y cylch comisiynu yw dadansoddi angen, ac yna deall pam nad yw trefniadau presennol yn diwallu unrhyw anghenion sydd heb eu diwallu.

Yn dilyn gweithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae awdurdodau lleol wedi sefydlu dulliau cyson o gasglu data ynghylch angen plant am ofal cymdeithasol, ar y lefelau lleol a rhanbarthol. Oherwydd hynny, ni ddylai fod yn feichus i awdurdodau lleol gasglu a dadansoddi data ynghylch yr angen am wasanaethau YA a chymharu hynny ag awdurdodau lleol tebyg. Felly, mae angen i ddarpariaeth YA sy'n cael ei chomisiynu gael ei harwain gan anghenion a dylai fod yn seiliedig ar hawliau plant/pobl ifanc yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

**Egwyddor 3: Dylai darpariaeth YA gael ei harwain gan anghenion**

Ar ôl iddo gael ei weithredu'n llawn, bydd yr Adnodd Asesu YA (sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r ddogfen hon) yn galluogi dadansoddiad rheolaidd o lefel ac ystod y gwasanaethau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion ar draws poblogaethau o blant sy'n derbyn gofal, ar lefel awdurdodau lleol ac ar y lefel genedlaethol. Caiff hynny ei sicrhau oherwydd mae'r adnodd yn crynhoi'r angen am wasanaeth YA ar lefel unigol ac ar lefel gyfanredol.

Yn Ebrill 2019, dim ond 0.4% o blant sydd â phrofiad o dderbyn gofal yng Nghymru oedd â mynediad at YA. Fodd bynnag, mae'r ystadegyn hwn yn cuddio amrywiad sylweddol, ac nid yw llawer o gynghorau yn darparu unrhyw wasanaethau YA i unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal.

Er bod dargyfeirio wedi digwydd rhwng gofal plant yng Nghymru a Lloegr (sy'n golygu na ellir gwneud cymhariaeth uniongyrchol), dylid nodi bod gan 3% o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Lloegr fynediad at YA.

Dylai comisiynwyr ystyried a ydynt yn diwallu anghenion sydd heb eu diwallu trwy ystyried sawl ffactor, megis data ynghylch plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd

- yn newid lleoliadau 3 gwaith neu ragor mewn blwyddyn (10% yw'r cyfartaledd yng Nghymru)
- yn cael eu lleoli y tu allan i'w sir (27% yw cyfartaledd Cymru)
- yn cael eu lleoli y tu allan i'w gwlad, hynny yw, y tu allan i Gymru (4% yw cyfartaledd Cymru)

Bydd sefyllfa pob awdurdod lleol yn wahanol, ond mae'n debygol y ceir anghenion sydd heb eu diwallu. Gan gofio'r ffactorau uchod, byddai'n rhesymol disgwyl bod gan 3.5-5 y cant o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal fynediad at YA.

**Parodrwydd at y dyfodol**

Dylai unrhyw ddadansoddiad ystyried tueddiadau yn y dyfodol hefyd, felly dylai comisiynwyr ystyried:

- Newidiadau a ragwelir mewn poblogaethau o blant sy'n derbyn gofal
- Y posibilrwydd y caiff gwasanaethau eu hailfodelu

## Cyfranogiad plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal

Dylai adborth gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal sydd â mynediad at (neu a ddylai gael mynediad at) ymwelydd annibynnol gael ei ddadansoddi hefyd. Dylai data ynghylch eu profiad o ddefnyddio gwasanaeth YA gael ei ystyried hefyd. Gall hyn gynnwys faint o amser oedd ei angen i'w paru, rhesymau pam nad oedd ymwelydd ar gael ac unrhyw ddata y maent wedi'u darparu ynghylch eu canfyddiad o ansawdd y gwasanaeth a gawsant.

**Nodweddion gwarchodedig**

Yn ychwanegol, dylai comisiynwyr fod yn ystyriol o'u dyletswyddau cyffredinol ynghylch cydraddoldeb wrth ystyried comisiynu gwasanaethau YA. Yn benodol, dylai hyn gynnwys:

- ystyriaeth o unrhyw anghyfartaleddau o ran mynediad at wasanaethau YA. [8]
- sut mae gwasanaethau YA yn cyfrannu at leihau anghyfartaleddau o ran y deilliannau a gyflawnir gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal?

| | |
|---|---|
| **Beth ddylai comisiynwyr ei gyhoeddi** | **Dadansoddiad o'r angen am YA**<br><br>Pan fydd yr elfen 'dadansoddi' wedi cael ei chwblhau, dylai awdurdodau lleol gyhoeddi a rhannu eu canfyddiadau. Gellir cyhoeddi hyn ar wahân, neu, fel sy'n fwy tebygol, fel rhan o ddadansoddiad ehangach o angen. Y sail resymegol wrth wraidd cyhoeddi'r dadansoddiad o anghenion yw sicrhau bod yr elfen o gyd-gynhyrchu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei gynnal. Mae tryloywder yn elfen allweddol o hyn.<br><br>Dylai unrhyw ddadansoddiad gynnwys targed dangosol ar gyfer y nifer o Ymwelwyr Annibynnol â gwahanol nodweddion y mae awdurdodau lleol yn disgwyl y bydd eu hangen yn ystod y blynyddoedd sy'n dod. Fe wnaiff hyn lywio gweddill y broses comisiynu ac yn cynorthwyo i sicrhau ymgysylltu effeithiol â darparwyr. |

[8] Enghraifft o hyn fyddai diffyg niferoedd digonol o ddynion yn y garfan o bobl sy'n gweithredu fel ymwelwyr annibynnol, ac o'r herwydd gallai hyn arwain at fechgyn a dynion ifanc yn methu cael eu paru'n briodol ag ymwelydd annibynnol. Gall hefyd arwain at beidio â chynnig ymwelydd annibynnol i fechgyn a dynion ifanc, hyd yn oed pan fydd er eu lles pennaf. Gallai hyn arwain yn ei dro at danadrodd ynghylch anghenion.

| | |
|---|---|
| | Dros amser, dylai data o'r Adnodd Asesu gael ei gyhoeddi hefyd. Byddai hyn yn galluogi cymariaethau cyson ar draws rhanbarthau ac yn genedlaethol. |

### *Elfen dau: Cynllunio*

Pan fydd y dadansoddiad o angen wedi cael ei gyflawni, bydd angen i gomisiynwyr fynd ati i benderfynu sut byddant yn cynllunio i ddarparu gwasanaethau YA. Wrth wneud hynny, byddant heb os yn ystyriol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau cysylltiedig, mewn meysydd megis cyd-gynhyrchu a hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector. Nid yw'r fframwaith yn pennu dull comisiynu na model penodol, nac yn awgrymu a ddylid gwneud y comisiynu yn lleol neu'n rhanbarthol, ar y cyd â gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol yn y rhanbarth neu ar wahân iddynt. Nid oes digon o brofiad wedi'i werthuso i bennu beth yw'r modelau a'r dulliau gorau ar gyfer cynnal gwasanaethau YA, ac eithrio nodi bod yn rhaid i'r cyllid gwmpasu digon o oriau o swydd Cydlynydd YA penodedig i alluogi ffocws ar recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr ar lefel lleol yn hytrach na lefel rhanbarthol. Bydd angen i gomisiynwyr ystyried sut gallant:

- baru plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'w sir neu du allan i'r wlad ag ymwelwyr annibynnol
- darparu ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant y mae angen eu paru'n benodol mewn perthynas â nodwedd warchodedig
- diwallu anghenion siaradwyr y Gymraeg, pobl ifanc sydd â chefndiroedd ieithyddol eraill a phlant sydd ag anawsterau cyfathrebu, e.e. anableddau dysgu.

Mae'n debygol y bydd cynllunio yn cynnwys rhywfaint o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, ond bydd angen i gomisiynwyr ystyried o fewn eu cyllidebau beth yw'r ffordd orau o gefnogi ymwelwyr annibynnol sy'n gallu darparu dealltwriaeth a rennir o gymuned, tref neu ddinas benodol, ac iaith benodol hefyd. Er enghraifft, efallai bydd yn fwy addas paru person ifanc o dref yng ngorllewin Cymru sydd wedi'i leoli yn Nhorfaen â rhywun o'i dref enedigol, yn hytrach na rhywun a gaiff ei recriwtio yn lleol. Mewn achosion eraill, efallai y ffefrir recriwtio gwirfoddolwr sy'n byw yn agosach at y lleoliad ei hun. Bydd y dewisiadau hyn yn dibynnu ar ddymuniadau a theimladau'r plentyn a'i gynllun gofal.

**Egwyddor 4: Darparu adnoddau priodol**

Mae'n rhaid i gomisiynwyr ystyried faint o gyllideb sy'n ofynnol i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael.

Ar lefel unigol a lefel gyllidebol, mae Ymwelwyr Annibynnol yn elfen cost isel o'r system gofal. Mae data presennol yn awgrymu bod swm o tua £2,400 y plentyn bob blwyddyn yn swm dichonadwy i'w roi i ddarparwr i'w alluogi i ddarparu gwasanaeth YA cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys costau prosesau recriwtio a dewis, hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant rheolaidd, cost goruchwylio, adroddiadau chwarterol a blynyddol a ddarperir i'r awdurdod lleol, a'r costau a ad-delir i'r ymwelydd annibynnol am bob ymweliad misol. Mae gwaith yr YA yn wirfoddol ac mae'r costau cysylltiedig yn ymwneud â'r darparwr yn sicrhau bod arferion diogel yn cael eu sefydlu ac yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ynghylch YA.

Dylid clustnodi adnoddau rhesymol i ddarparu'r gwasanaeth. Fel canllaw, byddai'n rhesymol felly i awdurdod neilltuo swm sy'n cyfateb i:

**Nifer y plant a phobl ifanc y disgwylir y bydd anynt angen YA x £2400.00 = cyllideb resymol**

| Beth ddylai comisiynwyr ei gyhoeddi | **Cynllun Comisiynu YA**<br><br>Dylai comisiynwyr amlinellu sut maent yn cynllunio i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn ystod y cam dadansoddi. Bydd y cynllun yn cynnwys unrhyw opsiynau caffael strategol a'r allbynnau a'r deilliannau y mae disgwyl i wasanaethau YA eu cyflawni gan ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael. Trwy ganolbwyntio ar ddeilliannau, yn hytrach na dim ond prosesau ac allbynnau, gall awdurdodau lleol ddangos sut maent yn bwriadu diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal trwy ddarparu gwasanaeth YA. |
|---|---|

## *Elfen tri: Darparu*

Pan fydd cynllun wedi'i sefydlu, bydd yn ofynnol i gomisiynwyr wneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth YA.

<u>Gwasanaethau YA a gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol</u>

Ar hyn o bryd, mae rhai awdurdodau lleol wedi dewis comisiynu gwasanaethau YA a gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol gyda'i gilydd, fel rhan o un pecyn rhanbarthol. Er bod rhai sefydliadau yn darparu'r ddau fath o wasanaeth, dylai comisiynwyr gofio eu bod yn wahanol iawn:

- Mae Ymwelwyr Annibynnol yn wirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser i ymgyfeillio â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Gallant eirioli yn anffurfiol, ond nid hynny yw eu rôl benodol yn y system gofal. Maent ar gael i ymgyfeillio â'r plentyn neu'r person ifanc a chynnig cwnsela, cymorth a chyngor anffurfiol dros gyfnod sylweddol.

- Mae eiriolwyr proffesiynol annibynnol yn bobl sydd wedi'i hyfforddi'n broffesiynol i alluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau. Gall y math hwn o eiriolaeth fod yn eiriolaeth tymor byr, a bydd fel arfer yn canolbwyntio ar y materion y mae'r person ifanc yn pryderu yn eu cylch a'r penderfyniadau y mae'n dymuno cael dweud ei ddweud yn eu cylch.

Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn na ellir trefnu i gaffael y ddau wasanaeth ar y cyd, ond maent yn golygu bod caffael o'r fath gryn dipyn yn fwy cymhleth. Os caiff y ddau wasanaeth eu comisiynu ar y cyd, bydd yn rhaid i gomisiynwyr:

- sicrhau bod y deilliannau a ddisgwylir gan wasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gwasanaeth YA yn cael eu gwahanu'n glir;
- cyhoeddi manylebau ar wahân ar gyfer y ddau wasanaeth;
- llunio cyllidebau sy'n galluogi darparwyr i ddiwallu'r angen, a dangos sut maent yn diwallu'r angen, am wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gwasanaethau YA.

**Manyleb**

Bydd angen i'r sawl sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau greu manyleb sy'n ystyried natur benodol gwasanaeth YA, a dylai hyn gynnwys:

- Yr allbynnau a'r deilliannau y mae angen eu cyflawni trwy gyfrwng y cytundeb;
- Sut mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i ddarparwr gyflawni ei ofynion statudol ynghylch gwasanaethau YA;
- Sut mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i ddarparwr gyflawni'r 14 safon ymarfer cenedlaethol ar gyfer YA yng Nghymru.

| Beth ddylai comisiynwyr ei gyhoeddi | **Manyleb YA**<br><br>Dylai comisiynwyr lunio manyleb glir sy'n cynnwys yr allbynnau a'r deilliannau y mae disgwyl i wasanaethau YA eu cyflawni trwy gyfrwng y cytundeb. |
|---|---|

### *Elfen pedwar: Adolygu*

Dylai trefniadau comisiynu gwasanaethau YA gael eu hadolygu'n ffurfiol o bryd i'w gilydd i nodi:

- A yw'r gwasanaethau YA sydd wedi cael eu comisiynu wedi cyflawni beth a ddisgwylid;
- Beth yw barn y plant a'r bobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal sy'n defnyddio'r gwasanaeth YA am y gwasanaeth;
- Sut mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau YA wedi newid;
- Sut mae angen wedi newid o fewn y cylch comisiynu.

| Beth ddylai comisiynwyr ei gyhoeddi | **Adroddiad comisiynu YA**<br><br>Adroddiad yn crynhoi canfyddiadau o werthusiadau ffurfiol o'r gwasanaeth a nodi blaenoriaethau ar gyfer y cylch comisiynu nesaf. Dylai hyn hefyd amlinellu argymhellion ynghylch y camau nesaf. |
|---|---|

# ATODIAD E

## Rhagor o Wybodaeth

**Darparwyr Presennol Gwasanaethau Ymwelwyr Annibynol yng Nghymru**

TGP Cymru
12 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF10 2DY
Rhif ffôn: 029 2039 6974
E-bost: admin@tgpcymru.org.uk

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru
main@nyas.net

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Abertawe
7 Heol Walter, Abertawe, SN1 5NF
Rhif ffôn:  01792 544000
E-bost: scvs@scvs.org.uk

**Eraill**

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Ffordd Ffenics, Llansamlet
Abertawe, SA7 9FS
Rhif ffôn:  01792 76500
E-bost: post@childcomwales.org.uk

Rhwydwaith Cenedlaethol Ymwelwyr Annibynnol
Barnardo's
Barkingside, Ilford, Essex
IG6 1QG

Coram Voice
Coram Voice, Gregory House, Coram Campus, 49 Mecklenburgh Square, Llundain WC1N 2QA
Rhif ffôn: 020 7833 5792
E-bost: info@coramvoice.org.uk

**Cyfeiriadau**

*Safonau Ymarfer a Chanllawiau Arferion Da:  Adolygu a monitro Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 plentyn neu berson ifanc.* Grŵp Cynghori Gweinidogion, Llywodraeth Cymru.

*Asesu Rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) wrth ymgymryd ag achosion gofal plant ac adolygu rôl Ymwelwyr (YA) gyda Phlant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal*. Grŵp Cynghori Gweinidogion, Llywodraeth Cymru.